WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2018 – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 862A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Fflur Jones, Anthony Veale, Michelle Phoenix, Sharon Jeffries a Melanie Williams, o dan gyfarwyddyd Dave Thomas.

# Cynnwys

Adroddiad

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Y Cefndir 4

Y Prif Gasgliadau 5

Llywodraethu:
Er y cafwyd gwelliannau nodedig i rai agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ceir lle i gryfhau'r trefniadau ymhellach mewn rhai meysydd pwysig 6

Cynllunio strategol:
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu gweledigaeth strategol glir ac yn parhau i ddatblygu strategaeth hirdymor. Y mae hefyd yn bwriadu cysoni a gwella cynlluniau tanategol. 15

Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau:
Ceir ymrwymiad cryf i fod yn fwy effeithlon ond mae angen cryfhau ei dull strategol o ddefnyddio asedau ac ymdrin â'r problemau sy'n bodoli ers tro yn gysylltiedig ag absenoldeb salwch 20

Argymhellion 30

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol 32

Atodiad 2 – Ymateb yr Ymddiriedolaeth i argymhellion eleni 37

# Adroddiad

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith Asesiad Strwythuredig 2018 yr Archwilydd Cyffredinol yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Cyflawnwyd y gwaith er mwyn cynorthwyo i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, sef bod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Roedd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2018 yn cynnwys cyfweliadau â swyddogion ac Aelodau Annibynnol, arsylwi cyfarfodydd y bwrdd, pwyllgorau a rheolwyr ac adolygu dogfennau, perfformiad a data ariannol perthnasol. Cynhaliom hefyd arolwg o aelodau bwrdd ar draws yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Gwahoddwyd 16 o fynychwyr rheolaidd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i gymryd rhan, a chael ymateb gan 12 (75%) ohonynt.

3 Mae gwaith asesu strwythuredig eleni yn dilyn themâu tebyg i waith blynyddoedd cynt, er inni ehangu'r cwmpas i gynnwys sylwebaeth ar drefniadau'n gysylltiedig â chaffael, rheoli asedau a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r adroddiad yn rhannu ein canfyddiadau o dan dair thema – trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ei hymagwedd at gynllunio'n strategol a'r trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. I gloi'r adroddiad, nodir ein hargymhellion.

4 Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r camau gweithredu a gymerwyd i ymateb i argymhellion Asesiad Strwythuredig y flwyddyn gynt. Yn Atodiad 2 ceir ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn 2018.

## Y Cefndir

5 Yn ein gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2017, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i fwrw ymlaen â'r trefniadau corfforaethol sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i hadnoddau. Amlygwyd sawl maes i'w wella gennym hefyd. O ran cyllid, nodwyd bod angen mwy o ffocws ar ddulliau trawsnewidiol o sicrhau arbedion effeithlonrwydd, a chraffu'n fanylach a gynlluniau arbed sy'n tanberfformio. Nodwyd bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn parhau i ddatblygu, ond bod angen gweithredu ymhellach mewn sawl maes, a bod lle i gynyddu cyflymder y newid a'r gwelliannau. Amlygwyd hefyd bod rheoli asedau ac absenoldeb salwch yn parhau i achosi heriau, a bod angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi gapasiti TGCh digonol i gefnogi gwaith parhaus i foderneiddio gwasanaethau.

6 Yn ystod 2017-18. parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gael ei monitro drwy drefniant rheolaidd o dan Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. Llwyddodd unwaith eto i fantoli'r gyllideb, gan adrodd gwarged o £70,000 ar ddiwedd y flwyddyn, a sicrhau Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2018-21 o fewn y raddfa amser a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Ers ein hadroddiad ar yr Asesiad Strwythuredig diwethaf, gwelwyd trosiant sylweddol ar lefel y Weithrediaeth o fewn yr Ymddiriedolaeth, ac mae Cadeirydd dros dro wedi dechrau ei swydd ers mis Ebrill 2018.

7 Yn ystod y gaeaf 2017-18, cafodd yr Ymddiriedolaeth ei chodi i Lefel 4 yn y Cynllun Gweithredu Cynyddu Adnoddau[1] (REAP) am y tro cyntaf yn ei hanes. Roedd y weithred o uwchgyfeirio yn adlewyrchu'r cynnydd digynsail yn y galw, a gafodd effaith sylweddol ar allu'r Ymddiriedolaeth o ran adnoddau, a'i pherfformiad o ran arosiadau ambr 95 canradd.[2] Arweiniodd hyn at adolygiad o berfformiad ambr gan swyddfa Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans, a gyhoeddodd ei ganfyddiadau ym mis Tachwedd 2018.[3] Cafwyd hefyd newid sylweddol i weithlu parafeddygol yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2017, gyda'r rhan fwyaf o barafeddygon yr Ymddiriedolaeth yn dewis symud o swydd band pump i swydd band chwech. Bydd angen parhau i reoli'r newid hwn yn ofalus yn y blynyddoedd nesaf.

# Y Prif Gasgliadau

8 Mae gwaith ar Asesiad Strwythuredig eleni wedi dangos bod yr **Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu ei hagenda gynllunio strategol, ac wedi ymrwymo i weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol. Fodd bynnag, gallai wella ei gafael ar newid a chyflymder y newid mewn rhai meysydd**. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- er y bu gwelliannau nodedig yn rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ceir lle i gryfhau'r trefniadau ymhellach mewn rhai meysydd pwysig;
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu gweledigaeth strategol glir ac yn parhau i ddatblygu strategaeth hirdymor. Y mae hefyd yn bwriadu cysoni a gwella cynlluniau tanategol; ac
- mae ymrwymiad cryf i fod yn fwy effeithlon ond mae angen cryfhau ei dull strategol o ddefnyddio asedau ac ymdrin â'r problemau sy'n bodoli ers tro yn gysylltiedig ag absenoldeb salwch.

9 Rhoddir ystyriaeth fanylach yn yr adrannau canlynol i'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn.

[1] Dyma gynllun yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli sefyllfaoedd lle bydd y galw yn fwy na'r capasiti

[2] Mae'r Model Ymateb Clinigol yn rhannu galwadau brys i gategorïau yn ôl pa mor ddifrifol yw'r angen clinigol: Coch (argyfwng lle mae bywyd yn y fantol), Ambr (difrifol ond heb beryglu bywyd) a Gwyrdd (heb fod yn ddifrifol na pheryglu bywyd). Defnyddir arosiadau canradd 95 ambr fel dangosydd i fonitro amseroedd aros y 5% o alwadau ambr lle treuliodd galwyr yr amser hiraf yn disgwyl i ambiwlans gyrraedd.

[3] '<u>Adolygiad Ambr: Adolygiad o Alwadau i Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn y Categori Ambr</u>', Tachwedd 2018. Derbyniwyd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn llawn gan Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chytunodd y PGAB ac YGAC arnynt.

## Llywodraethu

10 Fel yn y blynyddoedd cynt, archwiliwyd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn rhan o'n Hasesiad Strwythuredig. Rydym yn cynnig sylwadau ar y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, a'r graddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Buom hefyd yn edrych ar yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion y sefydliad. Rydym wedi defnyddio canlyniadau ein harolwg o aelodau'r Bwrdd er mwyn helpu i ddeall enghreifftiau lle mae pethau'n gweithio'n dda, ac enghreifftiau lle gellid cryfhau'r trefniadau.

11 Er y bu gwelliannau nodedig yn rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu'r **Ymddiriedolaeth, gwelsom fod lle i gryfhau'r trefniadau ymhellach mewn rhai meysydd pwysig.**

### Gweinyddu busnes yn effeithiol

12 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn ei drefnu ei hun er mwyn helpu i weinyddu busnes yn effeithiol. Gwelsom fod **cynlluniau ar waith i ymdrin â gwendidau yn yr wybodaeth a gyflwynir gerbron y Bwrdd a'i bwyllgorau, ac yng nghylch busnes yr Ymddiriedolaeth.**

13 Bu rhai newidiadau i'r cnewyllyn o Aelodau Anweithredol yn ystod 2018, wrth benodi aelod presennol yn Gadeirydd Dros Dro a recriwtio Aelod Anweithredol. Bydd y broses o recriwtio Cadeirydd newydd yn dechrau'n fuan yn 2019. Bydd y Cyfarwyddwr Anweithredol Dros Dro yn llenwi'r swydd wag ar y Bwrdd sy'n deillio o hynny nes penodi'r Cadeirydd newydd. Yn ogystal, bydd angen benodi Is-gadeirydd newydd ar ôl i un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol dynnu'n ôl o'r rôl yn ddiweddar.

14 Mae'r Bwrdd wedi bod yn cynnal rhaglen waith barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn rhaglen gynhwysfawr i ddatblygu'r bwrdd. Mae Rhaglen Datblygu'r Bwrdd yn cynnwys amryw o weithgareddau wedi'u cynllunio i ganfod beth yw'r anghenion hyfforddi, a datblygu sgiliau a gwybodaeth aelodau'r bwrdd. Mae'n cynnwys: gweithdy ar rôl Cyfarwyddwyr Anweithredol; gwaith parhaus gydag Academi Cymru[4]; a gweithio gyda Rhestr Perfformiad Tîm Aston.[5] Oedodd yr Ymddiriedolaeth Raglen Datblygu'r Bwrdd yn ystod haf 2018, gan ddisgwyl i Brif Weithredwr newydd yr Ymddiriedolaeth gychwyn ei swydd ym mis Medi 2018. Nodir anghenion datblygu holl aelodau'r bwrdd drwy adolygiadau perfformiad a datblygiad blynyddol (PADRs) a defnyddir sesiynau rheolaidd ar gyfer datblygu'r bwrdd i drafod ac archwilio materion yn fanwl. Yn ystod 2017-18, roedd sesiynau datblygu bwrdd yn trafod materion fel y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

15 Er bod y Bwrdd yn cael ei gynnal yn effeithiol ar y cyfan, mae'r rheolaeth ar yr agenda, swmp yr wybodaeth yng nghyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau, ac amlder y cyfarfodydd hynny yn golygu bod aelodau'n aml yn teimlo eu bod yn brin o amser. Wrth adolygu papurau'r bwrdd a'r pwyllgorau, gwelsom fod y papurau'n aml

[4] Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn cydweithio ag Academi Cymru ar eu rhaglen tri cham 'Model Aeddfedrwydd ar gyfer Byrddau'. Yn ystod 2017-18, bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ar gam tri y model, a oedd yn cynnwys modiwlau ar fyrddau sy'n perfformio'n dda a phroffil o fwrdd sy'n aeddfedu.

[5] Offeryn asesu ar-lein yw Rhestr Perfformiad Tîm Aston sy'n nodi cryfderau ac anghenion datblygu timau; mae'n targedu gwaith datblygu tîm at yr agweddau lle mae angen y mwyaf o gymorth ar y tîm er mwyn sicrhau perfformiad uchel a meincnodi yn erbyn timau eraill cymaradwy.

rhwng 400 a 600 o dudalennau o hyd, a'u bod yn trafod amrywiaeth eang o faterion. Yn ein harolwg o aelodau'r bwrdd, canfuom fod:

- 4 o'r 12 (33%) o'r aelodau a ymatebodd yn teimlo bod digon o amser i ystyried yr holl eitemau ar yr agenda gan amlaf neu bob amser, o gymharu â 71% o aelodau bwrdd ledled Cymru;
- Teimlai 3 o'r 12 (25%) o aelodau a ymatebodd fod yr agenda o hyd ymarferol gan amlaf neu bob amser, o gymharu â 74% o aelodau bwrdd ledled Cymru; ac
- roedd 6 o'r 12 (50%) o aelodau a ymatebodd yn teimlo bod yr agenda gan amlaf neu bob amser wedi'i threfnu fel bod yr eitemau pwysicaf yn ymddangos yn gyntaf, o gymharu â 58% o aelodau bwrdd ledled Cymru.

16 Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu y gallai agenda'r Bwrdd fod yn haws i'w thrin. Roedd sylwadau gan aelodau'r bwrdd yn pwysleisio'r angen am hynny. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol: yr angen am 'agendâu byrrach'; bod angen i'r bwrdd gyfarfod yn amlach gan nad yw pedwar cyfarfod y flwyddyn yn ddigon; a rhoi digon o amser i eitemau allweddol ar yr agenda, gan fod 'digon o amser weithiau i roi ystyriaeth briodol i destunau, ond bod hynny gan amlaf yn digwydd yn erbyn y cloc, felly rwy'n teimlo bod diffyg dealltwriaeth ynghylch y manylion.'

17 Yn ôl Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol cylchredeg papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau saith diwrnod cyn cyfarfodydd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn llwyddo i gyflawni hyn i raddau helaeth, cafwyd rhai achosion lle na fodlonwyd gofynion y Rheolau Sefydlog hyn, ac mewn rhai achosion nodwyd bod papurau'n cael eu cyhoeddi ddiwrnod cyn, neu ar fore'r cyfarfod. Ceir achlysuron lle bydd cadw at y rheol saith diwrnod yn anodd oherwydd anghenion busnes, ond ni ddylai hynny ond digwydd mewn achosion eithriadol ac, yn ddelfrydol, ar ôl cytuno ymlaen llaw ar hynny â'r Cadeirydd perthnasol. Nod cyffredinol y rheol hon yw bod gan aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor ddigon o amser i ddarllen papurau cyn cyfarfodydd er mwyn cefnogi trafodaeth a chraffu effeithiol. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno meddalwedd newydd yn ddiweddar ar gyfer papurau'r bwrdd a phwyllgorau (a elwir yn iBabs). Cafwyd rhai heriau cychwynnol wrth geisio ymaddasu i'r rhaglen newydd hon, ac ymgyfarwyddo â hi, ond deallwn fod y system bellach wedi'i sefydlu'n llwyddiannus.

18 Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, cyflwynwyd argymhelliad gennym y dylid gwella ansawdd papurau'r bwrdd a'r pwyllgorau. Codwyd yr angen am fwy o gysondeb wrth gwblhau rhestrau gwirio adroddiadau, gan gasglu'r pwyntiau trafod o gofnodion pwyllgor yn gyson, a chyflwyno cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB)[6] yn rheolaidd gerbron y Bwrdd. Yn ôl cofnod olrhain argymhellion archwilio mis Medi, cymeradwyodd Gweithgor y Cadeiryddion y protocol ar gyfer cofnodion y bwrdd a'r pwyllgorau ym mis Mawrth 2018, ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi gohirio adolygiad o'r rhestr wirio ar gyfer adroddiadau hyd fis Rhagfyr 2018 gan fod adolygiad ehangach yn cael ei gynnal o strwythurau pwyllgor. Er bod y cofnod olrhain yn dangos bod y Bwrdd yn derbyn cofnodion y PGAB yn rheolaidd, dengys ein hadolygiad nad yw'r Bwrdd wedi derbyn unrhyw un o'r pedair cyfres o gofnodion a gymeradwywyd gan PGAB yn unrhyw gyfarfod ers mis Mawrth 2018. Er bod y Bwrdd yn cael gwybod am waith y PGAB drwy ddulliau eraill, gan gynnwys presenoldeb y Comisiynydd yn rhai o gyfarfodydd y Bwrdd, a thrwy bresenoldeb swyddogion o'r Ymddiriedolaeth yng nghyfarfodydd y PGAB, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod cyflwyno cofnodion y PGAB yn rheolaidd yn fuddiol ac yn angenrheidiol.

[6] Pwyllgor sy'n cynnwys saith Bwrdd Iechyd Cymru sy'n comisiynu gwasanaethau oddi wrth yr Ymddiriedolaeth a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans yw'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

19 Mae gan y Bwrdd dri phrif bwyllgor ar hyn o bryd: y Pwyllgor Archwilio; y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau; a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch.[7] Cynhaliodd pob pwyllgor ryw fath o werthusiad yn ystod 2017-18, lle cafodd aelodau a mynychwyr rheolaidd wahoddiad i fynegi barn ynghylch effeithiolrwydd y pwyllgorau yr oeddent yn eu mynychu. Roedd problemau cyffredin a godwyd ar draws y tri phwyllgor yn cynnwys amseriad cyfarfodydd a'r angen i resymoli'r papurau a oedd yn cael eu cyflwyno. Ar ben hynny, yn ein harolwg o aelodau'r bwrdd, canfuom fod 7 o'r 12 o aelodau (58%) yn hyderus neu'n hyderus iawn fod y Bwrdd yn derbyn cydbwysedd priodol rhwng gwybodaeth strategol a gweithredol, o gymharu â 63% o aelodau bwrdd ledled Cymru.

20 Yn ystod 2017-18, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu ymarfer mapio llywodraethu, sy'n edrych ar yr hierarchaeth rhwng cyfarfodydd grŵp a phwyllgor amrywiol, trefniadau adrodd a llif gwybodaeth rhwng y grwpiau, pwyllgorau a'r Bwrdd. Mae'r gwaith mapio yn parhau, a dylai gefnogi gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer adrodd a goruchwylio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r map llywodraethu i adolygu Cylch Gorchwyl pob pwyllgor yn ystod 2018-19.

21 Yn ogystal â hynny, yn ystod haf 2018 ffurfiodd nifer fach o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth weithgor i adolygu llwyth gwaith y pwyllgorau. Roedd gwaith y gweithgor wedi'i seilio'n rhannol ar ymarferion meincnodi pwyllgorau a gynhaliwyd gan y Bwrdd yn ystod 2017-18, a'i gasgliad oedd bod llwyth gwaith y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn rhy feichus. Lluniodd y gweithgor gyfres o argymhellion i'r Bwrdd a oedd yn cynnwys sefydlu Pwyllgor Gweithlu newydd (a elwir hefyd yn Bwyllgor Pobl); a rhesymoli'r wybodaeth a dderbynnir gan bob pwyllgor.

22 Yn sgil y gwaith a arweiniwyd gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol, newidiwyd hyd a mynychder cyfarfodydd y Bwrdd. Yn y gorffennol, cyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau wedi cael eu cynnal bob chwarter, ac eithrio dau gyfarfod byr ychwanegol i'r bwrdd bob blwyddyn er mwyn adolygu a chymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) a'r cyfrifon blynyddol. Gan fod cymaint o wybodaeth yn dod i law, adroddodd sawl aelod eu bod yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r holl waith angenrheidiol mewn nifer fach o gyfarfodydd rhwng tair a phedair awr o hyd. Yn ystod hydref 2018, bu'r Ymddiriedolaeth yn archwilio'r opsiynau sydd ar gael i ymdrin â'r broblem hon, ac o ganlyniad i hynny bydd cyfarfodydd y bwrdd, gan gynnwys y ddau gyfarfod ychwanegol, yn cael eu cynnal dros ddiwrnod cyfan yn hytrach na hanner diwrnod. Dylai'r newid hwn, ynghyd ag adolygiad o'r papurau a gyflwynir gerbron pwyllgorau a'r weithred o ffurfio pwyllgor newydd, ddatrys y pwysau ar yr aelodau a chyflwyno gwelliannau pellach i'r modd y caiff busnes y bwrdd ei gynnal.

23 Rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Medi 2018, gweithredodd yr Ymddiriedolaeth ddeg o gamau gweithredu drwy'r Cadeirydd. Mae Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys darpariaeth i wneud penderfyniadau angenrheidiol drwy'r dull hwn. Fodd bynnag, rhwng y dyddiadau hyn sylwn fod gweithrediadau'r Cadeirydd naill ai wedi'u nodi neu eu cymeradwyo ym mhapurau'r bwrdd, yn hytrach nac wedi'u hystyried a'u cadarnhau gan y Bwrdd, fel y nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth. Dylai diwygio amserlen cyfarfodydd y Bwrdd fod o gymorth i leihau'r angen i weithredu drwy'r Cadeirydd o hyn allan. Yn anochel, bydd angen gweithredu drwy'r Cadeirydd o hyd yn achlysurol, ac mae'n bwysig disgrifio'r achosion hynny'n ddigonol ym mhapurau'r Bwrdd, hyd yn oed os yw'r eitem eisoes wedi'i thrafod neu ei chytuno yn un o bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi dewis adrodd gweithrediadau'r Cadeirydd yn ystod ei sesiwn agored. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd papurau'r bwrdd yn cynnwys digon o fanylion am benderfyniadau a gymerwyd i gefnogi proses gadarnhau yn dilyn penderfyniadau uchel eu gwerth a allai

[7] Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd Bwyllgor Cronfeydd Elusennol a Phwyllgor Taliadau, er bod y rhain yn cyfarfod yn llai aml ac yn cynnwys llai o aelodau.

fod yn bwysig. Er enghraifft, mewn eitem a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2017, defnyddiwyd y disgrifiad syml, 'Gorsaf Ambiwlans y Barri' ym mhapurau'r bwrdd.

24 Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth fersiwn ddiwygiedig o'i Chynllun Cadw a Dirprwyo ym mis Mawrth 2018, ond nid yw'n glir pa bwerau sydd wedi'u dirprwyo gan y Bwrdd i'w bwyllgorau. Nodir yn y ddogfen fod 'cwmpas y pwerau a ddirprwyir, ynghyd â'r gofynion a bennwyd gan y Bwrdd yn gysylltiedig ag arfer y pwerau hynny, yn unol â'r hyn a nodir yn i) cylch gorchwyl y pwyllgor, a ii) trefniadau ffurfiol ar gyfer dirprwyo pwerau i eraill. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn ffurfio Cynllun Dirprwyo'r Ymddiriedolaeth.' Wrth eu holi yn ystod y cyfweliadau, nid oedd Cadeiryddion pob pwyllgor yn sicr o'r pwerau a oedd wedi'u dirprwyo gan y Bwrdd. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cylch gorchwyl pob pwyllgor yn cael ei adolygu yn ystod 2018-19, sy'n rhoi cyfle i gadarnhau'r trefniadau hyn.

## Nodi risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

25 Buom yn edrych ar ymagwedd y Bwrdd at roi sicrwydd iddo ei hun fod risgiau i gyflawni blaenoriaethau wedi'u rheoli'n dda. Gwelsom fod **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn parhau i ddatblygu, ac er bod gweithdrefnau risg yn gydlynol, mae'r ymarfer yn anghyson**.

26 Cymeradwyodd y Bwrdd ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (y Fframwaith) yn ffurfiol ym mis Medi 2016, er bod disgwyl i'r Fframwaith barhau i esblygu. Yn ystod 2018, cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth waith i alinio'r Fframwaith ag amcanion strategol a nodwyd yn ei CTCI 2018-21.

27 Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2017, adroddwyd y gellid cryfhau'r Fframwaith drwy gynnwys mwy o fanylion am yr hyn sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion strategol, gwella gwybodaeth am y rheolaethau a'r sicrwydd a dyrannu'r gwaith o oruchwylio pob risg a nodir a'r rheolaethau cysylltiedig i bwyllgor neilltuol. Wrth asesu cynnydd, gwelir bod y disgrifiad o'r bygythiadau i gyflawni nodau strategol a'r rheolaethau a'r sicrwydd wedi gwella, a bod dulliau lleol, corfforaethol ac allanol o roi sicrwydd wedi'u nodi. Mae'r Fframwaith hefyd yn dyrannu'r gwaith o oruchwylio pob nod strategol a'r risgiau a'r rheolaethau cysylltiedig i bwyllgor neilltuol graffu arnynt. Ni chafodd y Fframwaith ei gyflwyno gerbron un cyfarfod o'r Bwrdd na dau gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2018 oherwydd trafodaethau ar y gofrestr risg gorfforaethol. O fis Rhagfyr 2018, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu y bydd y Bwrdd a phob un o'i dri phrif bwyllgor yn derbyn y Fframwaith ym mhob cyfarfod er mwyn cryfhau'r trefniadau goruchwylio a chraffu.

28 Dylai trefniadau sicrwydd y Bwrdd fod ar ffurf estyniad rhesymegol o drefniadau rheoli risg presennol y sefydliad.[8] Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r bwrdd wrthym eu bod yn teimlo nad oedd y Bwrdd yn defnyddio'r Fframwaith yn effeithiol eto oherwydd gwendidau mewn ymarfer rheoli risg.

29 Yn ystod 2017 a 2018, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithio ar ei gweithdrefnau Rheoli Risg. Sefydlodd Grŵp Datblygu Rheoli Risg a Grŵp Cynghori ar gyfer y Gofrestr Risg er mwyn casglu, herio a chymedroli risgiau yn well.[9] Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu canllawiau ar gyfer ei Fframwaith a'i Strategaeth Rheoli Risg ar hyn o bryd i sicrhau ei bod yn sgorio risgiau'n gyson ar draws y sefydliad. Mae

[8] Canllaw ar Lywodraethu Da i Fyrddau GIG Cymru, 2017 gan Academi Cymru

[9] Mae Grŵp Cynghori'r Gofrestr Risg yn cynghori Cyfarwyddiaethau ar draws yr Ymddiriedolaeth ynghylch y prosesau a'r asesiadau risg sy'n sail ar gyfer datblygu cofrestrau risg lleol a chorfforaethol, ac yn cynorthwyo i feithrin hyder a chymhwysedd y staff i sicrhau ymagwedd gyson at arferion rheoli risg ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Grŵp Datblygu Rheoli Risg yn cynorthwyo arweinwyr risg Cyfarwyddiaethau drwy greu llwyfan iddynt sy'n rhoi cefnogaeth, cyfarwyddyd a chysondeb wrth weithredu'r Strategaeth Rheoli Risg.

gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu offeryn e-risg, fydd yn galluogi adrannau i nodi a rhoi diweddariadau byw ynghylch risgiau. Bydd yr offeryn e-risg yn dod yn fyw yn ystod 2019-20.

30 Er gwaethaf gwaith parhaus i wella'r rheolaeth ar risg, mae'r arferion yn gysylltiedig â risg yn parhau i fod yn anghyson. Ym mis Ionawr 2018, addasodd yr Ymddiriedolaeth ei huchelgais ar gyfer risg, gan anelu i fod 'wedi rheoli risg' yn 2018-19 yn hytrach nag yn 2017-18, ac 'wedi'i galluogi o ran risg' yn 2019-20, gan gydnabod nad yw'r Ymddiriedolaeth eto wedi ymwreiddio trefniadau rheoli risg yn llawn.[10] Yn ôl y Fframwaith a'r Strategaeth Rheoli Risg mae'n ofynnol i adrannau nodi ac amlygu risgiau ac i gymryd rhan mewn trafodaethau i sgorio, cymedroli ac uwchgyfeirio risgiau perthnasol i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Fodd bynnag, cododd aelodau'r bwrdd a'r pwyllgorau bryderon ynghylch y broses ar gyfer sgorio risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol ac ynghylch Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Medi 2018. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2018, bu'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Nododd aelodau Pwyllgor fod y risg yn gysylltiedig â 'pherthnasoedd ag undebau llafur' wedi cael ei huwchgyfeirio, er nad oedd unrhyw fanylion wedi'u nodi ar gyfer hynny. Yn ogystal, ni chafodd aelodau'r pwyllgor na chynrychiolwyr yr undebau llafur a oedd yn bresennol yn y cyfarfod wybod y rhesymau dros uwchgyfeirio. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch y modd y caiff risgiau eu mesur a'u monitro, a yw'r bobl angenrheidiol yn ymwneud â'r risg ac a yw'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys digon o fanylion.Yn y cyfamser, yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Medi 2018 cwestiynodd Cyfarwyddwr Anweithredol pam bod y sgôr risg ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo[11] (sydd yn broblem gynyddol i'r Ymddiriedolaeth yn ystod cyfnodau o bwysau tymhorol) wedi cael ei hisraddio. Esboniwyd bod y sgoriau risg yn seiliedig ar ffigurau o'r gorffennol, a bod achosion o oedi wrth drosglwyddo wedi gostwng yn chwarter cyntaf 2018-19. Fodd bynnag, roedd hyn yn groes i'r wybodaeth yn yr Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad a nodai gynnydd o 32% yn yr achosion o oedi wrth drosglwyddo yn chwarter cyntaf 2018-19 o gymharu â 2017-18. Ceir pryderon yn gysylltiedig â hyn hefyd gan mai dogfen fyw yw'r fframwaith i fod. Mae sgorio'r risg yn seiliedig ar berfformiad y gorffennol yn awgrymu nad yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ei harferion rheoli risg i'w galluogi i ragweld y risgiau mwyaf sydd o'i blaen (hy, pwysau'r gaeaf yn y trydydd chwarter) a'u lliniaru yn y modd mwyaf effeithiol posib, gan ei bod yn canolbwyntio ar risgiau a gweithgarwch y gorffennol.

31 Dywedodd amryw o aelodau'r bwrdd hefyd wrthym nad yw'r broses rheoli risg gyfredol bob amser yn nodi'r risgiau amlwg i'r sefydliad, na'r risgiau i gyflawni nodau strategol. Yn ddiweddar, cymerodd aelodau'r Bwrdd ran mewn sesiwn 'gwirio synnwyr' lle buont yn canfod bylchau ar y gofrestr risg drwy nodi'r risgiau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt ar ddalen wag. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r Bwrdd yn cael digon o sicrwydd bod y system rheoli risg yn uwchgyfeirio risgiau yn effeithiol pan fo angen, sy'n tanseilio hyder aelodau'r bwrdd yn y gofrestr risg, ac yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn sgil hynny. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ymrwymiad parhaus i wella ei threfniadau rheoli risg, dylai roi'r flaenoriaeth i'r gwaith hwn er mwyn sicrhau ei bod yn ystyried, yn cyfleu ac yn sgorio ei risgiau'n effeithiol, a bod ganddi hyder bod gweithdrefnau wedi'u hymwreiddio'n gadarn.

[10] Mae Strategaeth Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth yn diffinio 'wedi rheoli risg' fel 'ymagwedd drwy'r holl Ymddiriedolaeth at reoli risg wedi'i datblygu a'i chyfleu'; mae'n diffinio 'wedi'i alluogi o ran risg' fel 'trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'u hymwreiddio'n llwyr drwy'r holl Ymddiriedolaeth'

[11] Mae oedi wrth drosglwyddo yn cyfeirio at unrhyw oedi wrth drosglwyddo cleifion o'r criw ambiwlans i adran o fewn y Bwrdd Iechyd, sef Adran Damweiniau ac Achosion Brys fel arfer. Ystyrir bod oedi wrth drosglwyddo os yw’r trosglwyddo’n cymryd mwy na 15 munud.

## Ymwreiddio system sicrwydd cadarn

32 Buom hefyd yn archwilio a oes gan yr Ymddiriedolaeth system effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol i gefnogi sicrwydd y bwrdd. Gwelsom fod **angen gwneud mwy o waith i gryfhau system sicrwydd yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig yn gysylltiedig â'r defnydd o archwiliadau clinigol**.

33 Mae fframwaith rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gadarn a chynhwysfawr. Fodd bynnag, er gwaethaf camau i symleiddio'r Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad yn ystod 2017, mae nifer y dangosyddion a gaiff eu monitro'n rheolaidd ac yr adroddir amdanynt wrth y Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i fod yn heriol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar amrywiaeth o fesurau perfformiad, gan gynnwys targedau Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Ansawdd Ambiwlansys (AQIs) a dangosyddion perfformiad ac uchelgeisiau mewnol. Drwy'r Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y dangosyddion canlynol gerbron y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, Pwyllgor QuEST a'r Bwrdd:

- tri dangosydd a adroddir wrth Lywodraeth Cymru bob mis;
- 78 o AQIs - 39 ar gyfer Gwasanaethau Brys a 39 ar gyfer gwasanaethau cludiant cleifion nad ydynt yn rhai brys (NEPTS); a
- 40 o ddangosyddion dangosfwrdd yn erbyn chwe nod strategol yr Ymddiriedolaeth.

34 Roedd y sylwadau a gafwyd yn arolwg aelodau'r bwrdd ac mewn cyfweliadau yn disgrifio'r modd y mae rhai aelodau yn teimlo nad ydynt yn gallu craffu'n effeithiol ar berfformiad oherwydd swmp yr wybodaeth a'r prinder amser sydd ar gael yn ystod cyfarfodydd pwyllgor a'r bwrdd. Yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Medi 2018, er enghraifft, roedd y papur cyflwyno ar gyfer yr Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad yn 27 tudalen o hyd, tra bo'r adroddiad ei hun yn 45 tudalen o hyd. Yn ogystal â hynny, mae nifer yr AQIs yn cael eu hadolygu, a gallent gynyddu yn y dyfodol gan fod Adolygiad Ambr Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans[12] wedi argymell y dylid datblygu mesurau clinigol a chanlyniad sy'n cwmpasu episod gofal cleifion yn ei gyfanrwydd ac yn galluogi meincnodi'n rhyngwladol ac o fewn y DU.

35 Yn 2016, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Grŵp Llywio Ansawdd (GLlA) sy'n casglu gwybodaeth gan amryw o is-grwpiau, fel y grwpiau ar gyfer Digwyddiadau Niweidiol Difrifol ac Ymchwil a Datblygu. Bydd y GLlA yn llunio Adroddiad Sicrwydd Chwarterol i amlygu materion ansawdd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Ymddiriedolaeth. Bydd y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor QuESt yn ystyried yr adroddiadau hyn. Gyda'i gilydd, dyma gyfres gadarn ar y cyfan o drefniadau llywodraethu ansawdd, o nodi'r pryderon a amlygwyd uchod ynghylch anawsterau'n gysylltiedig â swmp yr wybodaeth a'r prinder amser mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor.

36 Cynhaliodd tîm o Gyfarwyddwyr Anweithredol adolygiad o Ddigwyddiadau Niweidiol Difrifol a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod gaeaf 2017-18. Cafodd y tîm weld yr holl Ddigwyddiadau Niweidiol Difrifol a godwyd, a chynhaliodd astudiaeth fanwl o ddetholiad o'r digwyddiadau hynny a'r achosion sylfaenol. Yn sgil yr adolygiad, lluniodd y tîm amryw o argymhellion a chamau gweithredu, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i ddatblygu proses barhaus i Gyfarwyddwyr Anweithredol adolygu Digwyddiadau Niweidiol Difrifol a gwneud gwaith craffu manwl fydd yn ychwanegu at waith parhaus y Tîm Ymchwilio.

37 Ym mis Mawrth 2018, cyflwynodd yr Adran Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar Raglen Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol yr Ymddiriedolaeth gerbron y Pwyllgor Archwilio. Tynnai'r adroddiad sylw at sawl gwendid yn gysylltiedig ag archwilio clinigol, gan gynnwys diffyg strategaeth ar gyfer archwiliadau

[12] Gweler Troednodyn 3

clinigol, diffyg craffu ar ganfyddiadau archwiliadau clinigol a'r ffaith na roddir digon o flaenoriaeth i gamau gweithredu sy'n deillio o rai archwiliadau clinigol. Yn ôl cofnod olrhain argymhellion archwilio mis Medi, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu pump o'r chwe argymhelliad o'r adolygiad Archwilio Mewnol. Mewn perthynas â llywodraethu a monitro archwiliadau clinigol, nodir ar y cofnod olrhain mai'r Pwyllgor QuESt yw'r prif bwyllgor sy'n atebol am archwiliadau clinigol, a bod canfyddiadau archwiliadau clinigol yn cael eu hadrodd gerbron QuEST drwy ddwy ffordd:

- dangosyddion clinigol a adroddir drwy'r Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad; ac
- adroddiadau ar ganfyddiadau archwilio unigol o bwys.

38 Fodd bynnag, mae'n anodd iawn i aelodau pwyllgor wahaniaethu effaith archwiliadau clinigol ar ddangosyddion clinigol yn yr Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad. Bydd QuESt yn derbyn diweddariadau bob chwarter yn erbyn archwiliadau ac effeithiolrwydd clinigol, ond ni chyflwynwyd adroddiad Chwarter Un ar gyfer 2018-19. Derbyniodd QuESt hefyd adroddiad archwilio ar Gofnodion Clinigol Cleifion ym mis Chwefror 2018. Fodd bynnag, ymddengys fod lle i adrodd mwy eto am ganfyddiadau ac argymhellion archwiliadau clinigol a'r rhaglen effeithiolrwydd clinigol. Mae'r diffyg adroddiadau rheolaidd ar ganfyddiadau ac argymhellion archwiliadau clinigol a gyflwynir gerbron QuESt yn codi cwestiynau ynghylch sut mae'r Ymddiriedolaeth yn llunio ei rhaglen o archwiliadau clinigol ac yn rhoi sicrwydd ei bod yn defnyddio archwiliadau clinigol yn effeithiol i wella ansawdd, darpariaeth gwasanaeth a phrofiadau cleifion. Mae rhai Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi cydnabod yr angen i benderfynu a ddylid ystyried canfyddiadau ac argymhellion archwiliadau clinigol yn breifat neu'n gyhoeddus, yn dibynnu a yw'r archwiliad yn cynnwys gwybodaeth sensitif.

39 Adroddodd 11 o 12 (92%) o aelodau bwrdd eu bod bob amser neu fel arfer yn derbyn sicrwydd ynghylch paratoi am ofynion cyfreithiol a chydymffurfio â'r gofynion hynny, sydd yn cyd-fynd yn fras ag aelodau bwrdd ledled Cymru (95%). Mae Adran 25a o Ddeddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru)[13] yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau bod digon o nyrsys ar gael i ofalu am gleifion mewn modd sensitif mewn gwasanaethau a ddarperir a gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r Ymddiriedolaeth, sy'n cyflogi tua 200 o staff nyrsio, wedi datblygu Fframwaith Gyrfa Nyrsio a gyflwynwyd gerbron y Tîm Rheoli Gweithredol ym mis Mawrth 2018, ac y cyfeirir ato yn CTCI yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-19. Trafodwyd y Ddeddf hefyd, a'i goblygiadau i'r Ymddiriedolaeth yn QuESt ym mis Mai 2018. Fodd bynnag, dengys ein cyfweliadau ag aelodau bwrdd y gallai fod lle i gynyddu eto eu dealltwriaeth o'r modd y mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth.

40 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth broses gynhwysfawr i adolygu a diweddaru ei pholisïau ym mis Gorffennaf 2017, gan gynnwys nodi polisïau'r Ymddiriedolaeth a'r dyddiadau pan ddylid adolygu'r polisïau hynny, yn ogystal â nodi'r polisïau ac iddynt flaenoriaeth uchel. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth hefyd ar system garlam i bolisïau brys. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rhoi'r newyddion diweddaraf yn erbyn cynnydd ac yn nodi bod adroddiad chwarterol ar bolisïau yn cael ei gyflwyno gerbron Tîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Yn fersiwn mis Medi 2018 o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, nodwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi diweddaru 43 o'i 130 o bolisïau, a bod mwyafrif y polisïau yn parhau i fod wedi dyddio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu a chymeradwyo 54 o bolisïau eraill erbyn mis Rhagfyr 2018. O'r 57 o bolisïau a nodwyd yn wreiddiol fel rhai yr oedd blaenoriaeth uchel i'w hadolygu, roedd 20 ohonynt wedi cael eu hadolygu ym mis Hydref 2018, a phum polisi arall yn disgwyl cael eu cymeradwyo. Yn ogystal â hynny, ym mis Ionawr 2018 derbyniodd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau bapur ar ddatblygiad tri pholisi diwygiedig

[13] Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (y Ddeddf) i rym ym mis Ebrill 2017

gan GIG Cymru ar gyfer y gweithlu yr oedd yr holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru wedi'u derbyn ym mis Mawrth 2016. Cydnabu'r papur nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu'r polisïau cyn cyfarfod mis Ionawr yn 2018, oherwydd amryfusedd.

41 Y llynedd, nodwyd bod angen diweddaru polisïau Llywodraethu Gwybodaeth allweddol yn rhan o'r paratoadau ar gyfer gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ym mis Mai 2018. Cymeradwywyd y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Hydref 2018. Roedd polisïau, gan gynnwys y Polisi Diogelu Gwybodaeth, y Polisi Gwaredu a'r Polisi Patsys wedi dyddio ar adeg y gwaith maes, ond nodir bod cynlluniau i gymeradwyo'r polisi Diogelu Gwybodaeth a'r Polisi Rheoli Mynediad ym mis Rhagfyr 2018. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â Hanfodion Seiber ar hyn o bryd oherwydd gwendidau mewn polisi, a chan ei bod yn dal i ddefnyddio rhaglenni meddalwedd sydd wedi dyddio. Yn adroddiad Stratia a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, pwysleisiwyd yr angen i'r Ymddiriedolaeth ddiweddaru polisïau allweddol fel mater o frys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwn, gan adrodd wrth y Tîm Rheoli Gweithredol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru wedi cymeradwyo a chylchredeg amryw o bolisïau Cymru gyfan yn gysylltiedig â gwybodaeth a diogelwch ym mis Medi 2018, ac roedd disgwyl i gyrff y GIG fabwysiadu'r polisïau cenedlaethol hyn. Wrth i'r Ymddiriedolaeth fynd ati i ddiwygio a chymeradwyo'r polisïau sy'n weddill ganddi, dylai sicrhau ei bod yn cyflawni'r gwaith hwn yn ddigon cyflym ac yn parhau i gadw golwg ar unrhyw bolisïau newydd y mae'n rhaid iddi gydymffurfio â hwy.

42 Mae'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth yn goruchwylio strategaeth, polisïau, systemau a phrosesau Llywodraethu a Diogelu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhoi sicrwydd bod y sefydliad yn cydymffurfio ac yn rheoli unrhyw risg i'r gydymffurfiaeth honno. Yng Nghylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth, nodir bod yn rhaid i bedwar o chwe aelod craidd y Grŵp yn gorfod yn bresennol er mwyn i'r Grŵp gyflawni ei fusnes, ac ni fu hyn yn wir bob tro yn 2018. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi rhannu'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh yn ddau grŵp ar wahân yn ddiweddar, nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd y ddau grŵp yn cydweithio i sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth oruchwyliaeth gyffredinol o'i phrosiectau digidol.

43 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth wella fformat a threfniadau cymeradwyo cofnod olrhain ei phwyllgor archwilio yn ystod 2018. Ym mis Mai, cododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ymholiad ynghylch cofnod olrhain argymhellion archwilio'r Ymddiriedolaeth, gan gyfeirio at sefyllfa lle nad oedd rheolwyr wedi cofnodi gweithred yn gywir, a lle'r oedd argymhelliad wedi'i gau a'i ddileu yn sgil hynny. Mewn ymateb i hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi siarad â rheolwyr i godi eu hymwybyddiaeth o'r angen i gofnodi camau gweithredu'n gywir. Erbyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2018, roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi diwygio'r cofnod olrhain argymhellion archwilio. Drwy drefnu bod yn rhaid i fwy nag un lofnodi yn erbyn argymhellion, dylid sicrhau gwell cywirdeb a chefnogaeth i'r aelodau yn y broses graffu. Mae'r fformat newydd hefyd yn ei gwneud hi'n haws dadansoddi argymhellion yn ôl blwyddyn, blaenoriaeth a chynnydd.

44 Yn ein gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2017, argymhellwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'n glir sut y mae gweithrediadau yn ymatebion y rheolwyr ar y cofnod olrhain argymhellion archwilio yn ymdrin â'r argymhelliad y maent yn berthnasol iddo (er enghraifft os yw'r weithred yn golygu adolygu maes neu swyddogaeth, rhoi disgrifiad o ganlyniad yr adolygiad hwnnw a'r modd y mae'n ymdrin â'r argymhelliad gwreiddiol). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r argymhelliad hwn, ac mae ymatebion y rheolwyr bellach yn gliriach. fodd bynnag, nid yw'r cynnydd sydd wedi'i nodi ar y cofnod olrhain yn gwbl gyson â'n hadolygiad o gynnydd yn ystod Asesiad Strwythuredig eleni. Er enghraifft, o ran yr argymhelliad i wella papurau'r bwrdd a'r pwyllgorau, sylwn fod papurau'n dal i gael eu hanfon allan yn hwyr, ac nad yw'r Bwrdd yn derbyn

cofnodion y PGAB yn rheolaidd. Mae manylion llawn ein hasesiad o gynnydd yn erbyn argymhellion y llynedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

45 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r NFI sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n ddull hynod effeithiol o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd.

46 Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 1,791 o barau data yn rhan o'r ymarfer dwyflynyddol diweddaraf. Mae'r data a gaiff eu paru yn amlygu anghysondebau a all fod o gymorth i ganfod gwallau ac achosion o dwyll wrth eu hadolygu. Er nad ydym yn disgwyl i gyfranogwyr adolygu'r holl barau data, mae rhai o'r parau cyfatebol wedi'u pennu'n 'barau a argymhellir'. Ystyrir bod y parau hyn yn rhai risg uchel, felly argymhellir y dylid rhoi'r flaenoriaeth i'w hadolygu'n fuan. Argymhellwyd 105 o barau i'r Ymddiriedolaeth. Adroddwyd gennym yn Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17 mai ychydig iawn o gynnydd yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi'i wneud wrth adolygu'r parau data ar 20 Tachwedd 2017, ac nad oedd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI yn rhan o'i threfniadau i atal a chanfod twyll. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi mynd i'r afael â hyn yn dilyn penodi swyddog atal twyll yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol, drwy gwblhau adolygiadau o 243 o barau, gan ganolbwyntio ar y parau a argymhellir. Rydym o'r farn fod y gwaith a gyflawnwyd yn rhesymol a chymesur. Sylwn fod rhaglen we'r NFI yn dangos bod gwaith i adolygu 31 o barau yn dal ar y gweill. Gan fod y gyfres nesaf o barau'r NFI i fod i gael eu rhyddhau ym mis Ionawr 2019, mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod adolygiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cael eu cwblhau'n fuan a'r canfyddiadau yn cael eu hadrodd ar raglen we'r NFI.

## Sicrhau bod y dyluniad trefniadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol

47 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei threfnu ei hun i gyflawni amcanion strategol ar y cyd gan sicrhau llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni ar yr un pryd. Gwelsom **y byddai angen rheoli effaith y trosiant sylweddol ar lefel swyddogion gweithredol, ac i sicrhau bod digon o gapasiti yn swyddogaethau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth i gefnogi prosesau busnes allweddol**.

48 Yn ystod 2018, cafwyd newidiadau sylweddol yn y Tîm Rheoli Gweithredol. Cychwynnodd Prif Swyddog Gweithredol newydd ei swydd ym mis Medi 2018, gadawodd y Cyfarwyddwr Cyllid (a'r Prif Weithredwr dros dro), ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Trafnidiaeth i Gleifion nad ydynt yn Rhai Brys, y sefydliad, a bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn gadael y sefydliad cyn diwedd y flwyddyn. Bu'n rhaid gwneud trefniadau gwaith dros dro ar gyfer y newidiadau hyn, ac mae rhai o'r trefniadau hynny'n dal yn weithredol ar gyfer rhai o'r swyddi. Yn ogystal â hynny, bu'n rhaid ailgydbwyso portffolios y Weithrediaeth dros dro ac yn barhaol er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a rheolaeth ddigonol ar swyddogaethau'r sefydliad. Mae Pwyllgor Taliadau'r Ymddiriedolaeth wedi goruchwylio'r trefniadau dros dro, ac nid yw'r newidiadau wedi cael effaith negyddol ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei busnes.

49 Y llynedd, adroddwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi ad-drefnu ei gweithrediadau a'i hadrannau clinigol drwy gyflwyno newidiadau sy'n anelu i wella gwaith rhanbarthol, cynyddu'r ffocws clinigol a chreu mwy o eglurder ynghylch atebolrwydd. Gohiriodd y Tîm Rheoli Gweithredol bapur ar wireddu'r manteision yn gysylltiedig â newid y ddau strwythur o fis Medi i gyfarfod diweddarach yn ystod hydref 2018. Dywedodd rhai aelodau bwrdd wrthym ei bod hi'n rhy fuan i ddangos y graddau y mae'r newidiadau hyn yn llwyddo, a'u heffaith.

50 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gwneud sylwadau ynghylch y modd y mae capasiti yn swyddogaethau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth o dan bwysau. Ymddengys fod hyn yn wir eto yn 2018. Er

enghraifft, dywedodd staff y buom yn cyfarfod â hwy fod gweithgarwch y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i faterion uchel eu blaenoriaeth a gofynion cyfreithiol hanfodol; i raddau helaeth, mae gwaith yr adran TGCh wedi'i gyfyngu i ymateb i anghenion sy'n bodoli ar y pryd a gwaith hanfodol;[14] a chan fod capasiti rheoli prosiect y tîm cynllunio yn brin iawn, sydd yn effeithio ar y gallu i gyflawni prosiectau (gweler paragraff 73). Mae un o gynlluniau arbed blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â rheoli swyddi gwag anweithredol, felly gallai'r pwysau ar gapasiti corfforaethol waethygu. Llwyddodd y cynllun hwn i sicrhau dros £1 miliwn mewn arbedion yn ystod 2017-18. £300,000 yw ei darged ar gyfer 2018-19, ac erbyn mis chwech yr oedd yn gorgyflawni a bron â dyblu ei darged ar gyfer y flwyddyn (£233,000). Mae hyn yn debygol o gyfyngu mwy fyth ar gapasiti mewn adrannau anweithredol.

## Cynllunio strategol

51 Yn rhan o'n gwaith, buom yn archwilio'r modd y mae'r Bwrdd yn gosod amcanion strategol ar gyfer y sefydliad, a'r modd y mae'n cynllunio ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Buom yn asesu'r graddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio'r modd y bydd yn cyflawni ei hamcanion, drwy ddefnyddio ei chynlluniau ariannol, ei chynlluniau ar gyfer y gweithlu a chynlluniau eraill tanategol. Gofynnwyd hefyd a oedd digon o gysylltiadau rhwng cynlluniau, yn allanol ac yn fewnol, ac a oeddent yn seiliedig ar wybodaeth dda, ac yn defnyddio data ar gyfer galw a chapasiti. Yn olaf, roeddem am wybod a yw'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni yn erbyn ei chynlluniau strategol, a pha mor gadarn yw ei threfniadau i fonitro cynnydd.

52 Gwelsom fod yr **Ymddiriedolaeth wedi pennu gweledigaeth strategol gweledigaeth strategol glir ac yn parhau i ddatblygu strategaeth hirdymor. Y mae hefyd yn bwriadu cysoni a gwella cynlluniau tanategol.**

### Pennu'r cyfeiriad strategol

53 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn mynd ati i bennu ei flaenoriaethau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ac yn nodi'r rheiny mewn CTCI neu CGB clir. Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth **wedi pennu gweledigaeth glir a'i bod yn parhau i ddatblygu strategaeth hirdymor**.

54 Mae gan yr Ymddiriedolaeth chwe nod strategol a amlinellir yn ei CTCI ar gyfer 2018-21. Mae'r nodau strategol wedi'u diffinio'n glir ac yn gyson â'i gweledigaeth, ei blaenoriaethau ei hymddygiad a'i phwrpas. Mae CTCI 2018-21 yn trafod y flwyddyn olaf yng nghynllun treigl tair blynedd cyntaf yr Ymddiriedolaeth, a gyhoeddwyd yn 2016. Chwaraeodd y Bwrdd ran bwysig yn y gwaith o bennu cyfeiriad strategol yr Ymddiriedolaeth wrth greu'r CTCI cyntaf (2016019), ac ers hynny mae'r cyfeiriad wedi parhau i fod yn gyson a'r CTCI wedi cael ei ailwampio'n flynyddol yn hytrach na'i ddiwygio'n gyfan gwbl. Adroddodd yr holl aelodau bwrdd a ymatebodd i'n harolwg eu bod bob amser neu gan amlaf yn cymryd rhan yn y gwaith o bennu gweledigaeth y sefydliad, o gymharu â 96% o aelodau bwrdd ledled Cymru.

55 Y llynedd, adroddwyd bod yr Ymddiriedolaeth yn datblygu strategaeth hirdymor (y Strategaeth) ar gyfer 2018-2030. Nod y Strategaeth oedd ei helpu i wireddu ei gweledigaeth hirdymor o fod yn wasanaeth cwbl glinigol. Fodd bynnag, gohiriwyd datblygu'r Strategaeth tra bo'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun 'Cymru Iachach'.[15] Cafodd Cynllun Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi ym mis Mai

[14] Yn ystod 2017 roedd y gwaith hwn yn cynnwys gweithredu’r system CAD newydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth

[15] Cymru Iachach yw Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018

2018, ac mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi ailgydio yn ei waith ac yn bwriadu cyhoeddi'r Strategaeth yn fuan yn 2019.

56 Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan fawr yn natblygiad Strategaeth 2019-30. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid i oleuo datblygiad y Strategaeth. Bydd y Strategaeth yn gweithredu fel ysgogiad pwysig ar gyfer cynlluniau'r Ymddiriedolaeth a bydd fersiynau o'r CTCI a gyhoeddir yn y dyfodol yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni ei nodau hirdymor. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio i sicrhau bod cynlluniau eraill perthnasol a fydd yn weithredol o dan y Strategaeth yn gyson â'i gweledigaeth gyffredinol.

57 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu â phartneriaid wrth ddatblygu ei gweledigaeth lefel uchel. Fodd bynnag, mae natur yr Ymddiriedolaeth fel darparydd gwasanaeth a gomisiynir yn golygu bod gweithrediadau ei gomisiynwyr yn cyfyngu ar ei allu i gynllunio ar gyfer y tymor hir.[16] Os bydd comisiynwyr yn cyflwyno newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, gall hynny greu goblygiadau sylweddol i'r Ymddiriedolaeth a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo.[17] Gan hynny, bydd angen i'r Strategaeth fod yn ddigon hyblyg, a bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gynnal deialog rheolaidd ac effeithiol â'i chomisiynwyr er mwyn sicrhau y gall gyflawni'r nodau yn y Strategaeth.

## Cynllunio'n effeithiol

58 Buom yn edrych ar ddull yr Ymddiriedolaeth o ddatblygu'r cynllun strategol, ac a oes strategaethau a chynlluniau yn tanategu'r cynllun hwnnw sydd yn seiliedig ar ddadansoddiad o gostau, adnoddau ac arbedion. Gwelsom fod yr **Ymddiriedolaeth wedi datblygu CTCI cymeradwy ar gyfer 2018-21 a bod ganddi gynlluniau i gynyddu eglurder a chywirdeb cynlluniau tanategol**.

59 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu CTCI ar gyfer 2018-21, o fewn y llinell amser ofynnol. CTCI 2018-21 yw'r trydydd cynllun olynol i gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. I ddatblygu ei CTCI, mae'r Ymddiriedolaeth i raddau helaeth yn parhau i ddefnyddio cynlluniau tanategol ar raddfa'r gyfarwyddiaeth ac ar raddfa ranbarthol, a elwir yn Gynlluniau Cyflenwi Lleol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno canllawiau wedi'u diweddaru i bob cyfarwyddiaeth a phob rhanbarth bob blwyddyn. Bydd y broses gynllunio yn dechrau ym mis Medi bob blwyddyn, ac erbyn mis Hydref bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal 'diwrnod rhyngddibyniaeth' i gysoni ei Chynlluniau Cyflenwi Lleol a sicrhau eu bod yn gefnogol y naill i'r llall. Bydd y Cynlluniau wedyn yn cael eu cymeradwyo ym mis Rhagfyr. Mae'r broses o ddatblygu'r CTCI yn cydredeg â phroses y Cynlluniau Cyflenwi Lleol. Yn 2018, cymeradwyodd y Bwrdd ddrafft o'r CTCI ym mis Ionawr ar ôl adolygu a dylanwadu ar yr egin-ddrafft a luniwyd drwy sesiynau datblygu'r bwrdd a chyfarfodydd cyhoeddus o'r bwrdd yn nhymor yr hydref 2017.

60 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiad o'r galw a chapasiti a gynhaliwyd yn 2017.[18] Roedd yr adolygiad yn archwilio defnydd yr Ymddiriedolaeth o'i hadnoddau (y gweithlu, ystadau ac asedau), tueddiadau o fewn y boblogaeth a'r galw am wasanaethau. Nodwyd yn yr adolygiad fod yr Ymddiriedolaeth yn wynebu sawl her yn y dyfodol o ran capasiti gweithredol, amcanestyniadau'r galw,

[16] Comisiynir yr Ymddiriedolaeth gan y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru, a hefyd gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans

[17] Er enghraifft, y newidiadau cyfredol sy'n cael eu cynllunio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda drwy'r broses Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol

[18] Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth yr adolygiad hwn gan Operational Research in Health (ORH) yn 2016

perfformiad ac effaith pwysau ar systemau cyfan. Yn ôl CTCI 2018-21, yn ystod 2017-18 aeth yr Ymddiriedolaeth ati i fireinio amcanestyniadau Operational Research in Health ymhellach, a'u defnyddio'n sail wrth gynllunio ei gweithlu. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i gadw ei data'n gyfredol drwy ddefnyddio meddalwedd o'r enw Optima Predict i ddatblygu'r gallu i fodelu'r galw a'r capasiti yn fewnol.

61 Wrth ddatblygu ei CTCI, bydd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth ymateb i fwriadau comisiynu a ddarperir gan y PGAB i'r Ymddiriedolaeth. Er mwyn casglu gwybodaeth ynghylch y bwriadau, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth a'r holl Fyrddau Iechyd sy'n ei chomisiynu gwblhau templedi comisiynu bob un. Dylai bwriadau comisiynu felly alluogi'r Ymddiriedolaeth i ddeall unrhyw newidiadau i wasanaethau a gynllunnir gan y Byrddau Iechyd sy'n ei chomisiynu a allai effeithio ar ei gwasanaeth, fel symud gwasanaethau o'r naill ysbyty i ysbyty arall. Fodd bynnag, yn 2017 a 2018 darparodd y PGAB ei fwriadau comisiynu i'r Ymddiriedolaeth ym mis Tachwedd. Oherwydd graddfeydd amser, roedd hi felly'n gryn her eu defnyddio i lywio CTCI yr Ymddiriedolaeth, ac ystyried bod cymaint o'r CTCI ar ffurf drafft erbyn hynny, a bod yn rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr.

62 Mae CTCI 2018-21 yn cynnwys camau strategol ac uchelgeisiau perfformiad. Ceir 44 o gamau strategol yn y CTCI ar draws ystod eang o feysydd, ac mae 'cynllun cryno' tudalen o hyd wedi'i greu i gyflawni pob un ohonynt. Mae'r CTCI hefyd yn cynnwys cyfres o 45 o uchelgeisiau perfformiad, wedi'u nodi yn Atodiad y CTCI. Mae rhai o'r uchelgeisiau perfformiad yn uchelgeisiol, a byddant yn ymestyn y sefydliad, fel parhau i sicrhau gostyngiad o 75% yn y galw ymhlith galwyr mynych o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Fodd bynnag, nodir bod rhai targedau ar gyfer uchelgeisiau perfformiad yn is na lefel y perfformiad a gyflawnwyd yn ystod 2017-18, yn hytrach na'u bod yn anelu i gynnal perfformiad neu ei wella eto. Er enghraifft, y targed ar gyfer perfformiad coch yn 2018-19 yw 65-75%, er gwaethaf perfformiad o 76% yn 2017-18.

63 Yn ystod 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad o dan y teitl 'Ymwreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn ffyrdd o weithio'[19] ar y modd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gorff sydd wedi'i enwi o dan y ddeddfwriaeth, daethom i'r casgliad ei bod yn cydnabod manteision cymryd rhan yn yr agenda datblygu cynaliadwy, a'i bod yn dechrau ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y modd y mae'n cydweithio ac yn rhyngweithio â'i phartneriaid. Mae CTCI 2018-21 yn rhwymo'r Ymddiriedolaeth i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach fel un o'i 44 o gamau strategol.

64 Mae'r broses ar gyfer datblygu Cynlluniau Cyflenwi Lleol yn parhau i aeddfedu ac mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gwella'r canllawiau y mae'n eu cyhoeddi bob blwyddyn, er enghraifft, cydnabod yr angen i ddarparu cwmpas adnoddau penodol. O ran y CTCI, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gostwng nifer y camau o'r naill flwyddyn i'r nesaf o 154 yn ei CTCI ar gyfer 2016-19 i 44 yn ei chynllun ar gyfer 2018-21. Yn ogystal â hynny derbyniodd y Bwrdd bapur ym mis Gorffennaf 2018 ar y modd yr oedd angen i'r Ymddiriedolaeth addasu ei hymagwedd at ddatblygu'r CTCI gan fod disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd ar ddatblygu CTCIau yn 2019-20. Fodd bynnag, er bod yr Ymddiriedolaeth yn darparu gweithdy er mwyn cyflwyno canllawiau diwygiedig ar Gynlluniau Cyflenwi Lleol, nid yw'n darparu unrhyw hyfforddiant i helpu'r rhai sy'n gyfrifol am eu datblygu. Ar ben hynny, gan fod y capasiti wedi'i ymestyn o fewn yr adran gynllunio, dim ond tri phartner busnes cynllunio sydd ar gael i gefnogi'r rhai sy'n datblygu'r Cynlluniau Cyflenwi Lleol a ddefnyddir yn sail ar gyfer cyfran fawr o CTCI yr Ymddiriedolaeth.

65 Ers 2016, mae'r Ymddiriedolaeth i raddau helaeth wedi ailwampio cynnwys y cynllun cyntaf hwnnw a defnyddio Cynlluniau Cyflenwi Lleol mewn ymagwedd o'r gwaelod i fyny i ddatblygu ei CTCI. Fodd bynnag,

[19] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn ffyrdd o weithio' 2018

ar ôl datblygu ei strategaeth hirdymor ar gyfer 2019, bydd yr Ymddiriedolaeth o hynny allan yn defnyddio ei CTCIau yn bennaf fel dull o wireddu'r weledigaeth hirdymor lefel uchel drwy gamau a cherrig milltir tymor canolig. Bydd y CTCI nesaf ar gyfer 2019-22 felly yn adolygiad llwyr o gynlluniau'r Ymddiriedolaeth, yn hytrach na fersiwn wedi'i hailwampio.

66 Ers 2016, bu strategaeth glinigol yr Ymddiriedolaeth yn rhan annatod o'r CTCI. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi bod yr agenda glinigol wedi newid yn sylweddol dros y misoedd diwethaf, ac oherwydd strwythurau newydd o fewn cyfarwyddiaeth Glinigol yr Ymddiriedolaeth, y mae wedi penderfynu datblygu Strategaeth Glinigol newydd er mwyn cyfleu uchelgais yr Ymddiriedolaeth. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r Strategaeth Glinigol newydd erbyn mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal heb benderfynu a fydd y Strategaeth Glinigol yn ddogfen ar wahân i'r CTCI o hynny allan.

67 Mae CTCI 2018-21 yn cynnwys Cynllun Ariannol yr Ymddiriedolaeth. Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Bwrdd oedd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Cynllun Ariannol, cyn i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo yn rhan o CTCI yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Ariannol yn nodi mai'r cynllun arbedion sydd wedi'i gynnwys ynddo yw un o'r prif risgiau o ran cyflawni CTCI 2018-21, yn enwedig oherwydd risg o bwysau anhysbys neu annarogan, yn fewnol ac/neu'n genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r risg hon yn weithredol drwy'r Grŵp Cyllid Gweithredol, sydd yn olrhain ac yn monitro cyflawniad y cynllun arbedion yn rheolaidd.

68 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Ansawdd y nodir ei bod yn weithredol o 2016-2019. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth yn ymddangos fel pe bai wedi dyddio gan nad yw ond yn cynnwys camau ar gyfer 2016-17, ac nid yw'n cyfeirio at newidiadau i wasanaethau allweddol ers 2016, gan gynnwys y gwasanaeth 111. Nodir Mawrth 2017 fel dyddiad adolygu ar y Strategaeth Ansawdd, ond gohiriodd yr Ymddiriedolaeth yr adolygiad hwn gan ddisgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun cyflawni ansawdd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru bellach yn datblygu Bil Ansawdd a Llywodraethiant. Mae'r Ymddiriedolaeth felly'n bwriadu adolygu ei Strategaeth Ansawdd yn ystod hydref 2018, a chyflwyno fersiwn newydd gerbron QuESt ym mis Mai 2019.

69 Y llynedd, nodwyd bod cynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y gweithlu yn gwella yn sgil y model partner busnes o fewn yr Adran Adnoddau Dynol sy'n trafod cynlluniau gweithlu adrannau, fel y Ganolfan Gyswllt Glinigol a gwasanaeth 111. Mae cynlluniau'r gweithlu yn parhau i esblygu. Eleni, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflwyno pecyn cymorth newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu ar draws ei chyfarwyddiaethau yn sail ar gyfer ei chynlluniau o fis Ebrill 2019. Mae'r pecyn cymorth yn ymddangos yn fanwl a thrwyadl iawn. Mae'n rhaid i bob cyfarwyddiaeth gwblhau'r pecyn cymorth a ddefnyddir yn sail ar gyfer cynlluniau canolog, ond a fydd yn parhau i gael ei berchnogi a'i ddiweddaru'n lleol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn bwriadu adolygu ei Strategaeth Pobl yn nes ymlaen yn 2018-19 gyda'r nod o ddefnyddio hynny'n sail ar gyfer CTCI 2019-22.

70 Mae'r Amlinelliad o Raglen Ddigidol Strategol yr Ymddiriedolaeth ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ac nid yw'n cynnwys costau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn arddangos ymagwedd fwy strategol at geisiadau unigol, gan gynnwys yr wybodaeth fanylach sydd ei hangen ar gyfer ceisiadau ynghylch costau a gwireddu manteision. Dylai hyn gynorthwyo'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol i fod yn fwy rhagweithiol wrth reoli'r agenda ddigidol, ond bydd hyn yn parhau i fod yn her oherwydd problemau capasiti yn nhîm TGCh yr Ymddiriedolaeth.

## Monitro cyflawniad y cynllun strategol

71 Yn olaf, buom yn ystyried a yw'r cynnydd wrth weithredu cynlluniau strategol, a'r rhaglenni newid strategol sy'n eu cefnogi yn cael ei fonitro'n effeithiol. Gwelsom fod gan yr **Ymddiriedolaeth broses drwyadl ar gyfer monitro cyflawniad ei CTCI, a'i bod yn parhau i wella ei hymagwedd at reoli prosiectau, ond mae cyflymder y newid ar hyn o bryd yn amharu ar y gallu i gyflawni ei chamau strategol**.

72 Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro tair agwedd at y CTCI er mwyn sicrhau cyflawniad: y camau strategol; yr uchelgeisiau perfformiad; a'r cynllun ariannol. Mae Grŵp Sicrhau Cyflawniad y CTCI a'r Grŵp Cyllid Gweithredol yn gyfrifol am fonitro cyflawniad y CTCI. Yn ystod 2017-18, addasodd yr Ymddiriedolaeth rôl Grŵp Sicrhau Cyflawniad y CTCI gan wneud y grŵp yn gyfrifol am fonitro'r holl gamau strategol, boed y camau hynny'n gysylltiedig â phrosiect neu raglen, ac am olrhain uchelgeisiau perfformiad. Yn ogystal â hynny, bydd cyfarfodydd y Grŵp bellach yn cael eu cynnal yn syth cyn neu ar ôl cyfarfodydd Grŵp Cyllid Gweithredol yr Ymddiriedolaeth, fel bo modd cael dealltwriaeth ddi-dor o gyflawniad gwasanaethau a chyflawniad ariannol.

73 Nodir cynnydd yn erbyn uchelgeisiau perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn yr Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad a gyflwynir mewn Adolygiadau Chwarterol o Berfformiad Cyfarwyddiaethau a gerbron QuESt a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran monitro llwyddiant y cynllun ariannol yn rheolaidd, gan ei fod yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ariannol ac ar arbedion a gyflawnir. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y CTCI ym mhob chwarter, ac mae'r CTCI dilynol nesaf hefyd yn cynnwys crynodeb blynyddol. Er bod y broses ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd y CTCI yn gadarn, bu cyflawniad y broses honno yn anghyson yn 2017-18. O'r 43 o gamau a nodir yn CTCI 2017-20 i'w cyflawni yn 2017-18, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gwblhau ychydig dros hanner (28) ohonynt. Cafodd dau gam eu cau, a throsglwyddwyd yr 13 o gamau a oedd yn weddill i'r blynyddoedd dilynol. Roedd cyflawniad yn erbyn uchelgeisiau perfformiad hefyd yn amrywio yn 2017-18. Unwaith eto, nododd aelodau'r Bwrdd bryderon ynghylch maint yr wybodaeth, gan ddweud y byddai adrodd ar eithriadau yn eu galluogi i ganolbwyntio'n well ar y camau lle mae angen mwy o ymyriad a chefnogaeth.

74 Ar gyfer CTCI 2018-21, mae angen gweithredu amryw o raglenni a phrosiectau gwaith pwysig er mwyn llwyddo i gyflawni ei nodau. Yn ystod ei gyfarfod ym mis Ionawr 2018, nododd y Bwrdd risg na fyddai gan y sefydliad ddigon o gapasiti i gyflawni'r newid a nodir yn y CTCI Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y bu'n wael yn y gorffennol am neilltuo'r adnoddau sydd eu hangen i reoli prosiectau'n effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud penderfyniad bwriadol i beidio sefydlu Swyddfa Rheoli Rhaglenni ar wahân oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti o fewn y sefydliad, a chan ei bod yn dymuno gweld staff yr Ymddiriedolaeth a chanddynt brofiad cyfredol o reoli prosiectau yn rheoli ac yn gweithredu prosiectau ar draws y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith rheoli prosiectau i'w gwneud hi'n haws cael darlun cliriach o brosiectau a mwy o gysondeb rhwng ymagweddau rheoli prosiect. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu hyfforddiant i'r staff ar egwyddorion rheoli prosiect sydd yn gyson â'r fframwaith rheoli prosiectau. Er bod bwriadau'r Ymddiriedolaeth yn gadarnhaol, mae angen iddi sicrhau ei bod yn defnyddio'r sgiliau rheoli prosiect sydd ar gael i gyflawni prosiectau'r CTCI.

## Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

75 I raddau helaeth, mae defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn dibynnu ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid ac asedau ffisegol eraill. Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno sylwadau ar y trefniadau hynny ac ar y camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant hyd yr eithaf. Byddwn yn archwilio a oes gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau.

76 Gwelsom fod **ymrwymiad cryf i fod yn fwy effeithlon ond bod angen cryfhau ei dull strategol o ddefnyddio asedau ac ymdrin â'r problemau sy'n bodoli ers tro yn gysylltiedig ag absenoldeb salwch**.

### Rheoli'r gweithlu

77 Y gweithlu yw ased mwyaf y Ymddiriedolaeth, yn bennaf gan fod cyflogau i gyfrif am gyfran mor sylweddol o'i gwariant. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithlu yn gynhyrchiol ac wedi'i reoli'n dda, gan fod staff yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, ac er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd. Gwelsom fod yr **Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran recriwtio i'w gweithlu parafeddygol, a'i bod yn datblygu ymagwedd fwy strategol at ddysgu a datblygu, a chynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, nid yw wedi sicrhau'r cynnydd a gynlluniwyd o ran arfarniadau blynyddol, nac o ran gostwng lefelau absenoldeb salwch**.

78 Mae'r tabl canlynol yn dangos perfformiad yr Ymddiriedolaeth yng nghyswllt rhai mesuriadau allweddol, o gymharu â chyfartaledd Cymru. Yn Nangosyn 1 gwelir bod perfformiad yr Ymddiriedolaeth y cymharu'n fwy ffafriol o'i gymharu â chyfartaledd Cymru yn nhri o'r mesuriadau, ac yn llai ffafriol o'i gymharu â chyfartaledd Cymru mewn dau fesuriad.

### Dangosyn 1: perfformiad yn erbyn mesuriadau allweddol y gweithlu[20]

| Mesuriadau'r gweithlu | Yr Ymddiriedolaeth | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch | 7% | 5.2% |
| Trosiant | 8.5% | 6.9% |
| Swyddi Gwag | 1.3% | 2.1% |
| Arfarniadau | 68.1% | 66% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 90.6% | 69% |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gorffennaf 2018

[20] Salwch: cyfartaledd treigl dros 12 mis ym mis Chwefror 2018; Trosiant: y cyfnod o 12 mis o fis Chwefror 2017 hyd fis Ionawr 2018; Swyddi Gwag: hysbysebwyd yn ystod mis Gorffennaf 2018; Arfarnu: y 12 mis blaenorol; Hyfforddiant statudol a gorfodol: ar 26 Chwefror 2018

79 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol yn y defnydd o'i gweithlu, yn enwedig o ran ailddylunio a chynllunio'r gweithlu. Yn ystod yr Asesiad Strwythuredig a gynhaliwyd gennym yn 2017, nodwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn paratoi i gynyddu sgiliau ei weithlu parafeddygol, ac i gynnig y dewis iddynt o symud i fand chwech ar fframwaith cyflogau'r Agenda ar gyfer Newid. Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth y dewis i'w pharafeddygon naill ai weithio tuag at, ac arddangos, lefelau cymhwysedd uwch ar gyfer band chwech, neu gael eu hepgor o'r cynllun a bod yn Dechnegydd Meddygol Brys gan aros ym mand pump. Dewisodd tua 6% o'r gweithlu parafeddygol gael eu hepgor o'r cynllun a bod yn Dechnegydd Meddygol Brys, gyda mwyafrif clir yn symud i fand chwech. Er bod costau llawn wedi'u cynnwys yn yr achos busnes ar gyfer y galw hwn, mae cynnal proses drosglwyddo o'r fath o fewn dwy flynedd wedi rhoi pwysau ar yr Ymddiriedolaeth.

80 Roedd yr achos busnes ar gyfer band chwech yn nodi'r manteision a ddisgwyliwyd erbyn 2021, gan gynnwys:

- datblygu parafeddygon yn y gymuned fel penderfynwyr a rheolwyr achosion, gan helpu drwy hynny i leihau'r baich ar adnoddau gofal eilaidd;
- cynyddu'r graddau y caiff parafeddygon eu hintegreiddio i dimau cymunedol a thimau gofal sylfaenol; a
- datblygu fframweithiau gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn, ac i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ddatblygu'n gyflogwr a ffafrir gan barafeddygon.

81 Yn ystod 2018, mae Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau gwella dangosyddion clinigol presennol, datblygu dangosyddion newydd ac olrhain effaith y newid, y bydd PGAB yn eu cynnwys yn y gyfres nesaf o fwriadau comisiynu'r Ymddiriedolaeth.Disgwylir gwerthusiad ffurfiol annibynnol yn 2018-19.

82 Yn ystod 2018 mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio i wella ei chynlluniau ar gyfer y gweithlu, a recriwtiodd arweinydd cynllunio'r gweithlu i ddatblygu'r gwaith hwnnw. Eleni, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar ganllawiau cynllunio'r gweithlu 6 cham a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Addysg a Datblygu'r Gweithlu. Mae'r pecyn cymorth yn gofyn i gyfarwyddiaethau nodi eu llinell sylfaen o ran gweithlu a'u gweledigaeth ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Y mae hefyd yn gofyn iddynt ystyried y nodweddion yn gysylltiedig â llwyddo i weithredu eu cynllun ar gyfer y gweithlu. Y mae wedyn yn datblygu'n gynllun gweithredu ar gyfer y gweithlu, gan gynnwys yr angen i nodi camau gweithredu penodol yn gysylltiedig â recriwtio a hyfforddi ac yn amlinellu'r broses fonitro ar gyfer y cynllun gweithredu. Bydd yn rhaid i bob cyfarwyddiaeth gwblhau'r pecyn cymorth erbyn mis Mawrth 2019.

83 Diweddarodd yr Ymddiriedolaeth ei pholisi recriwtio yn ystod 2018. Nododd hefyd ei bod wedi lleihau'r amser cyfartalog a gymerir i recriwtio o 169 o ddiwrnodiau ym mis Ionawr 2015 i 68 diwrnod ym mis Ionawr 2018. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwymo i greu cysylltiadau â'r gwaith i ddatblygu 'Brand Recriwtio GIG Cymru' o dan arweiniad Cyfarwyddwyr GIG Cymru ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Trefniadol yn ystod 2018-19.

84 Yn ystod 2018, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â darpar aelodau staff drwy gynnal digwyddiadau recriwtio Clec Fawr. Arweiniodd digwyddiad Clec Fawr a gynhaliwyd yn Abertawe yn nhymor yr haf 2018 at gynnig swyddi Parafeddyg Newydd Gymhwyso i 84 o ymgeiswyr mewn lleoliadau ar draws yr Ymddiriedolaeth. O fis Awst 2018, roedd gan yr Ymddiriedolaeth 15 o swyddi parafeddygol gwag CALl, a chyfanswm o 53 o swyddi gwag CALl ar draws ei Wasanaeth Meddygol Brys. Mae ymgyrchoedd llwyddiannus i recriwtio parafeddygon wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i or-recriwtio a negyddu effaith gostyngiadau recriwtio ac ymadawiadau cyn pwysau tymhorol 2018. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn

buddsoddi ym mharafeddygon y dyfodol drwy gomisiynu rhwng 50 a 55 o gyrsiau parafeddyg tair blynedd. Yn ychwanegol at ei lwyddiant wrth recriwtio, mae'r Ymddiriedolaeth yn dechrau defnyddio data o'r adolygiad o gapasiti a'r galw i wella rostrau ac ymdrin â'r bwlch cyflenwi yn ei Wasanaeth Meddygol Brys. Dylai'r camau hyn roi cefnogaeth bellach i'r Ymddiriedolaeth allu paru adnoddau â'r galw.

85 Fodd bynnag, mae gan yr Ymddiriedolaeth broblemau'n gysylltiedig â recriwtio mewn meysydd busnes eraill. Mae nifer y gyrwyr ceir gwirfoddolwr wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gostyngiad hwn yn rhoi pwysau ar wasanaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cludo Cleifion nad ydynt yn Rhai Brys, ac yn cynyddu'r defnydd o dacsis gan greu mwy o gostau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud ei bod yn bwriadu cynnal adolygiad llawn yn 2018-19 o'r trefniadau i recriwtio gwirfoddolwyr, a'r defnydd ohonynt, ar draws y gwasanaeth, a datblygu strategaeth gwirfoddolwyr er mwyn ceisio datrys yr anawsterau a geir wrth ddenu gwirfoddolwyr newydd.

86 Yn ystod 2017-18, ceisiodd yr Ymddiriedolaeth ddefnyddio canfyddiadau arolwg staff 2016 i ymdrin â phroblemau sy'n effeithio ar fodlonrwydd a llesiant ei staff. Aeth yr Ymddiriedolaeth ati i ymdrin ag amryw o gamau drwy Gynlluniau Cyflawni Unigol a thrwy weithgarwch canolog. Y mae hefyd yn datblygu dogfen 'dywedoch chi, gwnaethom ni' i ddangos pa gamau y mae wedi'u cymryd, gan gynnwys:

- addysgu arweinwyr tîm drwy'r rhaglen arweinwyr tîm;
- gwella'r broses ar gyfer PADR; a
- sefydlu gwobrau'r staff.

Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd arolwg 2018 o staff y GIG newydd gau a 42% o'r staff wedi ymateb iddo. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn y canfyddiadau manwl eto.

87 Ym mis Ionawr 2018, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth y Safon Aur ar gyfer Iechyd Corfforaethol am ei hymrwymiad i wella iechyd a llesiant ei staff. Sefydlodd Wasanaeth Cymorth Llesiant yn cynnig gwybodaeth a chyngor cyfrinachol am faterion sy'n destun pryder i'r staff neu sy'n arwain at absenoldeb, gan gynnig gwasanaeth cwnsela am ddim, profion golwg a phigiadau ffliw. Ym mis Ebrill 2018, lansiodd yr Ymddiriedolaeth hefyd Raglen Rheoli Risg Trawma i gryfhau'r gefnogaeth a ddarperir ganddi i staff parafeddygol sydd wedi profi digwyddiad trawmatig yn y gwaith.

88 Y llynedd, gwnaethom argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â'r lefel uchel o absenoldeb salwch. Cyfradd absenoldeb salwch dreigl yr Ymddiriedolaeth dros 12 mis ym mis Gorffennaf 2018 oedd 7.3% yn erbyn targed o 5.09%, ac roedd cyfraddau ar draws mis Rhagfyr 2017 a mis Ionawr 2018 gyda'r uchaf a brofodd ers 2013. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i brofi'r gyfradd absenoldeb salwch waethaf ar draws cyrff GIG Cymru. Yn ôl arolwg staff y GIG yn 2016, adroddodd 43% o staff yr Ymddiriedolaeth eu bod wedi cael eu hanafu neu deimlo'n sâl oherwydd straen yn gysylltiedig â gwaith, o gymharu â chyfartaledd GIG Cymru (28%). Mae hyn yn awgrymu nad yw'r ffaith bod yr Ymddiriedolaeth wedi ennill y Safon Aur ar gyfer Iechyd Corfforaethol na gweithredu'r Rhaglen Rheoli Risg Trawma yn cael effaith eto ar gyfraddau absenoldeb salwch.

89 Roedd y prif resymau dros absenoldeb yn 2017-18 yn parhau i fod yn gyson â rhesymau 2016-17, ac yn cynnwys gorbryder/straen/iselder a mathau eraill o salwch seiciatrig, a phroblemau cyhyrysgerbydol. Mae absenoldeb salwch hirdymor hefyd yn parhau i fod yn fwy o broblem i'r Ymddiriedolaeth na salwch byrdymor. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno cynllun naw pwynt i ymdrin ag absenoldeb salwch yn 2018-19. Y mae hefyd wedi ffurfio dau grŵp gorchwyl a gorffen newydd, wedi'u ffurfio'n benodol er mwyn ailwampio'r broses ar gyfer anafiadau diwydiannol a'r broses terfynu cyflogaeth yn achos absenoldeb oherwydd salwch hirdymor. Dyma'r camau a gynlluniwyd:

- rheoli achosion unigol o salwch hirdymor mewn modd mwy rhagweithiol;
- gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i brofi cynlluniau i ymdrin ag absenoldeb salwch;
- adolygu ac ailwampio'r pecyn archwilio absenoldeb salwch; a
- datblygu polisi adleoli.

90 Rhoddir llawer o sylw i absenoldeb salwch yng nghyfarfod y Bwrdd a'r pwyllgorau. Gan fod y gyfradd yn uchel, fodd bynnag, dywedodd rhai Cyfarwyddwyr Anweithredol wrthym nad ydynt yn teimlo'n sicr bod yr Ymddiriedolaeth yn rheoli absenoldeb salwch yn effeithiol, a bod y pryderon hyn wedi cael eu codi yng nghyfarfodydd diweddar y bwrdd. Yn ein harolwg o aelodau'r Bwrdd, canfuom mai ond tri o'r 11 (27%) o aelodau a ymatebodd a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn derbyn gwybodaeth sy'n rhoi dealltwriaeth dda iddynt o berfformiad yn gysylltiedig â chynhyrchiant y gweithlu. Gellir cymharu hyn â 40% o aelodau bwrdd ledled Cymru.

91 Ceir cynllun uchelgeisiol i drawsnewid hyfforddiant ac addysg i'r staff. Yn Strategaeth Addysg a Hyfforddiant (Drafft) 2019-24, nodir bod model cyfredol y gweithlu wedi'i sefydlu ym 1998 cyn datblygu parafeddygon fel aelodau mwyfwy clinigol o'r gweithlu. Mae'n awgrymu mai model ymatebol yw'r model cyfredol, a'i fod wedi dyddio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu sefydlu Academïau Gwasanaethau Ambiwlans a Chymunedau Dysgu Lleol ledled Cymru er mwyn galluogi staff i ddysgu a chwblhau gweithgareddau Ymsefydlu/Datblygiad Proffesiynol Parhaus o fewn eu hardaloedd lleol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn erbyn y strategaeth addysg a hyfforddiant yn dibynnu ar raglen gwella ystadau'r Ymddiriedolaeth.

92 Er mwyn cefnogi'r gweithlu o barafeddygon sy'n symud i fand chwech, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i ddatblygu cymwyseddau clinigol newydd. Mawrth 2019, fydd diwedd y flwyddyn lawn gyntaf o hyfforddiant ar gyfer band chwech. Mae tîm y gweithlu yn bwriadu gwerthuso'r rhaglen hyfforddi cyn diwedd mis Mawrth 2019, gan ei fod wedi cael gwybod bod rhai parafeddygon yn profi anawsterau.

93 Mewn ymateb gan adborth oddi wrth staff ar bob graddfa, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o hyfforddiant statudol a gorfodol yn 2017, a arweiniodd at ymgyrch gyfathrebu dargededig i gynyddu'r nifer sy'n derbyn yr hyfforddiant hwnnw. Am y tro cyntaf hefyd, trefnodd fod hyfforddiant ar gael gyda'r nos. O ganlyniad i hyn, cynyddodd y gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant o 65% ym mis Ebrill 2017 i 91% ym mis Gorffennaf 2018, gan ragori ar y targed cenedlaethol (85%). Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i gyrraedd targed yr Ymddiriedolaeth ei hun o 100%.

94 Y llynedd, adroddwyd gennym fod y gyfradd o adolygiadau perfformiad a datblygiad (PADRs) a gwblhawyd yn gwella ac wedi cyrraedd 70% ym mis Medi 2017. Ym mis Gorffennaf 2018, roedd 77% o aelodau cymwys o staff yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan mewn adolygiad PADR, ond mae'r perfformiad yn dal yn is na'r targed cenedlaethol o 85%. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu canllawiau ar PADRs er mwyn gwella eu hansawdd. Bydd y staff yn gwneud llawer o geisiadau am hyfforddiant a chyfleoedd am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus drwy'r broses PADR. Fodd bynnag, ni cheir cysylltiadau cadarn rhwng PADRs a chynllun addysg a hyfforddiant yr Ymddiriedolaeth, sy'n golygu y gall nodi ac ymateb i anghenion hyfforddi'r staff gymryd amser hir.

## Rheoli'r cyllid

95 Buom yn ystyried rheoli ariannol a chyllidebau, rheolaethau ariannol, a chefnogaeth a phrosesau gweithredol. Gwelsom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gadw cydbwysedd ariannol a sicrhau arbedion ariannol, ond bod angen perchnogaeth well ar y swyddogaeth gaffael**.

96 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gadw cydbwysedd ariannol ac i sicrhau arbedion a gynllunnir. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar gyfer 2017-18 ac ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2018. Ym mis chwech o 2018-19, sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth yn y flwyddyn hyd hynny oedd gorwariant bychan o £31,000 yn erbyn ei strategaeth gyllidebol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn drwy ddefnyddio camau unioni a chynlluniau i adennill a sicrhau arbedion ychwanegol, a gaiff eu monitro a'u datblygu drwy'r Grŵp Cyllid Gweithredol a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

97 Yn ystod 2017-18, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth raglen arbedion gwerth cyfanswm o £4.9 miliwn. Llwyddodd i gyflawni'r rhaglen honno ar gyfradd wastad drwy gydol y flwyddyn ar y cyfan. Y llynedd, adroddwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i sicrhau arbedion a gynlluniwyd yn 2016-17 gan fod rhai cynlluniau wedi gorgyflawni (ac yn sgil gwerthu rhai asedau). Bu hynny'n fodd i wneud iawn am dangyflawni mewn cynlluniau arbed eraill. Yn 2017-18, tangyflawnodd pedwar cynllun yn erbyn y targed arbedion a gynlluniwyd ar eu cyfer. Llwyddwyd i wneud iawn am hynny drwy orgyflawniad o £1 miliwn mewn dau gynllun arbedion arall. Dyma'r cynlluniau hynny:

- llwyddwyd i sicrhau cyfanswm o £1 miliwn o arbedion drwy gynllun i reoli swyddi gwag anweithredol, a oedd £600,000 yn fwy nag a gynlluniwyd; a
- llwyddodd cynlluniau lleol, yr oedd rhai ohonynt wedi denu incwm ychwanegol yn hytrach na lleihau costau, i sicrhau cyfanswm o £800,000 o arbedion, a oedd £423,000 yn fwy nag a gynlluniwyd.

98 Mae cynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-19 yn cynnwys cynllun arbedion gwerth £4.2 miliwn ynghyd â mesurau i gyfyngu ar gostau er mwyn iddi sicrhau cydbwysedd ariannol. Caiff arbedion unigol eu gosod o dan amryw o themâu arbed, sy'n cynnwys effeithlonrwydd y gweithlu, cyfyngu ar bwysau o ran costau, cynhyrchu incwm a pharhau i reoli arbedion effeithlonrwydd anweithredol. Mae CTCI 2018-21 yn cydnabod y risg o fethu sicrhau'r arbedion ariannol a gynllunnir ac mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus ei bod yn cymryd camau effeithiol i liniaru'r risg honno. Ym mis chwech o 2018-19, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi sicrhau £11,000 yn fwy o arbedion na'i tharged hyd hynny. Fodd bynnag, roedd y llwyddiant hwn unwaith eto yn deillio o'r ffaith bod rhai cynlluniau'n gorgyflawni gan wneud iawn am dangyflawni mewn cynlluniau eraill, gan gynnwys gorgyflawniad o £191,000 yn gysylltiedig â swyddi gwag anweithredol.

99 Ers 2015-16, gall yr Ymddiriedolaeth ddangos ei bod yn lleihau dibyniaeth ar arbedion anghylchol. Fodd bynnag, mae ei dibyniaeth ar reoli swyddi gwag anweithredol o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn destun pryder, yn enwedig yn sgil y materion capasiti a drafodwyd ym mharagraff 50. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn sicrhau swm sylweddol o arbedion drwy osgoi costau, yn ogystal ag arbedion. Er enghraifft, drwy osgoi costau cynyddol fel chwyddiant, treuliau, caffael, cardiau llithro ar gyfer tanwydd a gwaith y fflyd yn fwy cyffredinol.

100 Ar sail ei pherfformiad ariannol cyfredol, mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o barhau i gyflawni ei dyletswydd ariannol rhwng 2018-21. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar allu'r Ymddiriedolaeth i barhau i sicrhau arbedion cylchol a rheoli effaith galw cynyddol am ei wasanaethau. Yn ystod y cyfweliadau, cyfeiriodd staff yr Ymddiriedolaeth at gyflog gwyliau am oramser (gydag elfen o ôl-ddyddio) fel risg sylweddol o flaen yr Ymddiriedolaeth. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth asesiad manwl o'r risg hon, ei chynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter Dau o 2018-19, ac adrodd amdani wrth Lywodraeth Cymru.

101 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth i fonitro arian yn fisol wedi'u hen sefydlu. Mae'r Grŵp Cyllid Gweithredol a'r Tîm Rheoli Gweithredol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, yn craffu'n rheolaidd ar y sefyllfa ariannol, y risgiau ariannol a chyflawniad arbedion. Bydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Bwrdd hefyd yn craffu ar adroddiadau ar gyflawni arbedion ac adroddiadau ariannol bob chwarter.

102 Y llynedd, gwnaethom argymhellion ynghylch adroddiadau cyllid a chraffu ar arbedion ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cyflwyno amryw o welliannau mewn ymateb i'n hargymhellion. Roedd yr adroddiad cyllid a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym mis Hydref 2018 yn cynnwys mwy o fanylion am gynlluniau arbed sy'n tanberfformio. O adolygu cofnodion y Grŵp Cyllid Gweithredol gwelir bod presenoldeb aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol yn fwy cyson, gyda llai na thri ymddiheuriad wedi'u nodi ar gyfer deuparth y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2017-18. Yn ogystal â hynny, mae'r cofnodion yn dangos ffocws clir gan y Grŵp Cyllid Gweithredol ar y rhesymau sydd wrth wraidd tangyflawni mewn cynlluniau arbed penodol. Mae adroddiad ar brif bwyntiau arbed yr Ymddiriedolaeth bellach yn cynnwys elfen benodol sy'n trafod risgiau i gynlluniau arbed, a chamau i liniaru'r risgiau hynny. Darperir graddfa CAG hefyd ym mhob un o'r adroddiadau prif bwyntiau ar themâu unigol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gallai fod yn fwy eglur wrth dynnu sylw at risgiau i ansawdd a gwasanaethau, oherwydd ni chyfeirir rhyw lawer at risgiau eraill ar hyn o bryd ar wahân i risgiau i gyflawni'r targed arbedion. O hyn allan, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnwys cyfeirnod mewn adroddiadau ar gyfer pob math o risg a budd.

103 Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn cyflawni llawer o waith caffael ar ran yr Ymddiriedolaeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth na chynllun caffael sy'n nodi ei safbwynt ynghylch rôl caffael o fewn y sefydliad. Ceir Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ond mae'r cytundeb hwnnw'n anghyflawn. Er enghraifft, roedd enw'r Ymddiriedolaeth wedi'i adael yn wag, a dywedodd swyddogion yr Ymddiriedolaeth nad oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cofnodi ei disgwyliadau ar gyfer caffael, ar wahân i dargedau arbedion caffael.

104 Mae caffael yn cynhyrchu swm sylweddol o arbedion i'r Ymddiriedolaeth ac mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad bob chwarter i'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, nodwyd gwallau yn y ddogfen sy'n awgrymu diffyg craffu ar weithgarwch caffael a gyflawnir gan y Bartneriaeth. Er enghraifft, mae'r ddogfen yn cyfeirio at Fwrdd Iechyd arall, yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth. Nid yw felly'n glir a yw'r wybodaeth ynddi yn gywir, ac a yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau'r gwerth mwyaf posib am arian.

105 Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio â'r Bartneriaeth ar weithgareddau caffael, nid oes unrhyw risgiau caffael wedi'u cynnwys ar y gofrestr risg ariannol, nac ar gofrestr risg gorfforaethol yr Ymddiriedolaeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth adnoddau neilltuol ar gyfer gweithgareddau caffael, ond mae'r swyddogaeth honno yn rhan o gylch gorchwyl un o'i huwch reolwyr cyllid. Ar ben hynny, er bod y Cyfarwyddwr Cyllid yn cynnal cyfarfodydd bob chwarter â chydweithwyr o'r Bartneriaeth er mwyn trafod caffael, mae'r pellter daearyddol rhwng tîm caffael y Bartneriaeth sydd yn gyfrifol am yr Ymddiriedolaeth a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn golygu bod cynnal deialog yn gryn her.[21]

106 O ran gweithgareddau caffael a gyflawnir gan yr Ymddiriedolaeth ei hun, mae'r Ymddiriedolaeth yn arddangos gwell perchnogaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y gallai ei Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog fod yn fwy eglur wrth bennu terfynau caffael, ac wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ar hyn i ddeiliaid cyllideb a'r Bwrdd yn ystod 2018-19. Mae gan yr Ymddiriedolaeth fwrdd rhaglen caffael cerbydau i reoli a goruchwylio caffael cerbydau fel ambiwlansys. Mae Cylch Gorchwyl y bwrdd hwn yn nodi'n glir beth yw ei rolau a'i ddisgwyliadau, ac mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, cynrychiolwyr y staff, PCGC ac eraill.

[21] Mae tîm caffael PGCG sy'n gyfrifol am yr Ymddiriedolaeth wedi'i leoli yng ngogledd Cymru, tra bo'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi'i leoli yn swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth yng Nghwmbrân

107 Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar Lywodraethu a Recriwtio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro[22] a oedd yn cynnwys gwersi i'w dysgu'n ehangach gan gyrff GIG Cymru. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad hwn ym mis Mawrth 2018, a datblygodd yr Ymddiriedolaeth gynllun gweithredu i sicrhau ei bod yn gweithredu'r gwersi i'w dysgu o'r adroddiad. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cyflawni gwaith yn gysylltiedig â'i hymagweddau caffael, gan gynnwys y polisi cenedlaethol Dim Archeb, Dim Taliad. Y mae hefyd wedi rhoi canllawiau a gwybodaeth ar y polisi hwnnw a chanllawiau ar atal twyll wrth gaffael i'r staff.

108 Bydd achosion busnes a dderbynnir gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Bwrdd yn ystyried materion caffael. Ym mis Ionawr 2018 er enghraifft, cyflwynwyd papur gerbron y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar opsiynau i ailgaffael system Danfon Drwy Gymorth Cyfrifiadur bresennol NEPTS. Dangosai ein harolwg o aelodau bwrdd nad oedd gan Gyfarwyddwyr Anweithredol unrhyw bryderon penodol ynghylch caffael, a dywedai'r holl aelodau bwrdd eu bod yn hyderus neu'n hyderus iawn fod trefniadau caffael yn sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn cymharu â 59% ledled Cymru. Cydnabu'r aelodau bwrdd yn ystod ein cyfweliadau fod yr hyder hwn yn seiliedig ar wybodaeth a dderbynnir oddi wrth PCGC, ynghyd â goruchwyliaeth dros achosion busnes sy'n trafod materion caffael. Er gwaethaf hyder yr aelodau bwrdd, canfu ein Hasesiad Strwythuredig rai meysydd lle mae angen i'r Ymddiriedolaeth wella ei goruchwyliaeth dros berfformiad caffael, a'i pherchnogaeth ar hynny, er mwyn sicrhau ei bod yn sicrhau gwerth am arian.

109 Yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar golledion a thaliadau arbennig ac adroddiadau diweddaru tendrau a cheisiadau i hepgor ar gyfer tendrau unigol. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth wyth tendr a gwneud cais i hepgor chwe chyfarwyddyd ariannol sefydlog. Er nad yw'r aelodau wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch hyn, dengys ein harsylwadau o'r Pwyllgor Archwilio y gallai'r Ymddiriedolaeth fanylu mwy ar y ceisiadau hynny ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio.

## Gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant

110 Buom yn edrych ar yr hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud i wella perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i reoli'r galw yn unol â'r llwybr gofal ambiwlans, **ac arwyddion calonogol o welliant**.

111 Yn ôl CTCI yr Ymddiriedolaeth mae gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd yn thema hollbwysig a chyson drwy ei holl waith cynllunio. Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Rwydwaith Gwella ac Arloesi yn 2017 i ymwreiddio egwyddorion gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd, ac i wella cysondeb ac ansawdd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Dyma enghreifftiau o wasanaethau lle mae gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd wedi'i ymwreiddio ynddynt:

- yn 2017, sefydlwyd y Model Ymateb Clinigol yn barhaol ac yn dilyn hynny derbyniodd y wobr am 'Gyfraniad Rhagorol i Ofal Iechyd Darbodus' yng Ngwobrau GIG Cymru 2017, i gydnabod y ffaith bod y model yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd y cleifion a chanddynt yr angen clinigol mwyaf i ddechrau; a

[22] Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a Pherchennog y Cwmni cyhoeddwyd Gorffennaf 2017

- lleihau'r galw gan alwyr mynych[23] lle bydd yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio â phartneriaid i nodi ac ymdrin ag anghenion y 5% o alwadau y mae'n eu derbyn bob mis gan yr un unigolion. Adroddodd yr Ymddiriedolaeth fod y gwaith hwn wedi arbed dros 1,200 o achosion lle byddai ambiwlansys yn cael eu galw allan yn ddiangen yn ystod 2017.

112 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan mewn ymarferion meincnodi i wella effeithlonrwydd ac ansawdd ei gwasanaeth. Er mwyn gwella ei pherfformiad o ran 'Clywed a Thrin'[24] , cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymarfer meincnodi â Rhaglen Ymateb Ambiwlansys GIG Lloegr i sefydlu cyfradd arfer da o oddeutu 12% ar gyfer perfformiad Clywed a Thrin, gyda pherfformiad yr Ymddiriedolaeth rhwng 6% a 9% rhwng mis Awst 2017 a mis Awst 2018. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu pecyn cymorth meincnodi Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans, ar y cyd â Rhwydwaith Meincnodi'r GIG yn rhan o'r gwaith o wella cysylltiadau data a sefydlwyd ac a grëwyd yn sgil Adolygiad Ambr.

113 Yn ystod 2017-18, datblygodd yr Ymddiriedolaeth amryw o fentrau gwasanaeth a chynnal peilot ohonynt. Eu nod oedd gwella'r llif cleifion drwy drin cleifion yn gynharach ym mhum cam y llwybr gofal ambiwlans.[25] Roedd y prosiectau peilot yn cynnwys Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Parafeddygon Cymunedol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; a'r Fframwaith Gwella ar gyfer Cwympiadau. Nod pob prosiect peilot oedd trin cleifion yn nes at adref, lleihau'r angen i griwiau ambiwlans gludo cleifion i adrannau achosion brys a gwella profiadau cleifion. Mae Grŵp Cyllid Gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau ystyriaeth o egwyddorion gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd wrth bennu canlyniadau disgwyliedig cynlluniau peilot, fel bo modd eu gwerthuso'n ddiweddarach.

114 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi wneud mwy o waith yn nhermau Cam Un (Helpa fi i ddewis) o'r llwybr gofal ambiwlans pum cam ac, i'r perwyl hwnnw, bod angen iddi gydweithio â phartneriaid er mwyn addysgu'r cyhoedd a dylanwadu ar ymddygiad y cyhoedd. Mae data yn awgrymu bod gwaith i wella effeithlonrwydd gwasanaethau yn unol â'r llwybr gofal ambiwlansys yn cael effaith. Rhwng mis Awst 2017 a mis Awst 2018, cafodd 10% yn llai o gleifion eu cludo gan yr Ymddiriedolaeth i'r prif adrannau achosion brys, er gwaethaf cynnydd o 6% yn nifer y galwadau. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth, effaith y Ddesg Glinigol (Clywed a Thrin) sydd wrth wraidd hyn. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd o 32% yn yr achosion o oedi wrth drosglwyddo yn chwarter un o 2018-19 o gymharu â'r un cyfnod yn 2017-18. Mae hyn yn awgrymu bod pwysau'r gaeaf yn ystod 2018-19 yn debygol o achosi cryn her i'r Ymddiriedolaeth a'r system ehangach o ofal heb ei drefnu.

115 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adrodd wrth ei chomisiynwyr am ganlyniadau a gwerthusiadau prosiectau peilot drwy'r PGAB. Dengys y cofnodion fod Comisiynwyr yn cydnabod yr effaith a'r manteision, ond oherwydd yr hinsawdd ariannol maent yn aml yn teimlo nad ydynt yn gallu darparu cyllid ychwanegol i ehangu mwy ar y prosiectau hynny. Hoffai'r Ymddiriedolaeth i'r Byrddau Iechyd archwilio cyfleoedd i ddefnyddio'r Gronfa Drawsnewid a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 er mwyn cynyddu capasiti'r prosiectau peilot hyn a'r gallu i'w hehangu. Ar ben hynny, mae Adolygiad Ambr yn argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal

[23] Galwyr mynych yw'r bobl sy'n ffonio gwasanaeth brys dros bum gwaith y mis neu dros 12 gwaith mewn tri mis.

[24] Clywed a Thrin yw pan fydd gweithwyr clinigol hyfforddedig sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfannau Cyswllt Clinigol yr Ymddiriedolaeth yn trin cleifion dros y ffôn, lle bo'n briodol. Bydd hyn wedyn yn lleihau'r angen i anfon ambiwlans, a'r angen i gludo'r claf i'r ysbyty.

[25] Mae'r Llwybr Gofal Ambiwlans pum cam yn llwybr sy'n rhoi lle creiddiol i'r dinesydd. Mae'n disgrifio'r broses bum cam sy'n cefnogi cyflenwi gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru, sy'n amrywio rhwng cam un: helpwch fi i ddewis, a cham pump: ewch â fi i'r ysbyty.

adolygiad i weld a yw'n targedu'r adnoddau ychwanegol y mae wedi'u derbyn at wasanaethau rheng flaen, ac a oes ganddi ddigon o adnoddau i fodloni'r galw yn y dyfodol.

116 Yn ystod 2017-18, roedd perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer galwadau coch (argyfyngau lle mae bywyd yn y fantol) yn gyson ar raddfa Cymru gyfan, cafwyd mymryn o ostyngiad mewn cyfraddau cludo a chynnydd mewn cyfraddau Clywed a Thrin. Fodd bynnag, roedd hi'n destun pryder fod arosiadau ambr canradd 95[26] mor hir, ar ôl cynyddu o 1 awr 30 munud ym mis Awst 2017 i 2 awr 39 munud ym mis Awst 2018. Oherwydd pwysau gofal heb ei drefnu ar draws system y GIG ac oedi wrth drosglwyddo yn ystod gaeaf 2017-18, yr oedd pwysau sylweddol ar yr adnoddau a oedd ar gael i ymateb i alwadau. O ganlyniad i hynny, cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth statws pedwar REAP am y tro cyntaf yn ei hanes oherwydd anawsterau wrth ymateb i alwadau.

117 Yn ystod haf 2018, cynhaliodd Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans adolygiad i ddeall canlyniadau a phrofiadau cleifion y mae eu galwadau wedi'u cynnwys yn y categori ambr, yn enwedig y rhai hynny y bu'n rhaid iddynt aros yn hir am ymateb. Yn wahanol i alwadau coch, nid oes targed yn seiliedig ar amser ar gyfer galwadau yn y categori ambr. Roedd yr adolygiad yn edrych ar yr hyn sy'n dylanwadu ar argaeledd adnoddau'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys capasiti gweithredol y staff, salwch ymhlith y staff ac oedi wrth drosglwyddo. Gwnaed amryw o argymhellion yn sgil yr adolygiad, gan gynnwys:

- darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am rôl y gwasanaeth ambiwlans a'r dull o flaenoriaethu galwadau a'u rhannu i gategorïau;
- bod angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr adnoddau a gynllunnir yn ddigonol i fodloni'r galw a ddisgwylir; a
- lleihau'r arosiadau hwyaf i gleifion yn y gymuned.

Nid oedd yr adolygiad yn argymell y dylid cyflwyno targedau'n seiliedig ar amser ar gyfer galwadau ambr, ond mae'n argymell y dylid cyhoeddi ansawdd ac amseroedd ymateb sy'n adlewyrchu'r episod cyfan o ofal a dderbynnir gan y claf.

## Rheoli'r ystâd ac asedau eraill ffisegol

118 I gloi, buom yn ystyried y modd y caiff yr ystâd a'r asedau ffisegol eu rheoli. Gwelsom fod lle **i gryfhau ymagwedd strategol yr Ymddiriedolaeth at reoli asedau**.

119 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth a chynllun rheoli asedau ar hyn o bryd, ond mae ganddi gynlluniau ar gyfer mathau penodol o asedau. Er enghraifft, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gynllun Amlinellol Strategol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Ystadau yn fuan yn 2018. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd Gynllun Amlinellol Strategol ar gyfer y Fflyd. Mae'r cynlluniau hyn yn disgrifio'r ymagwedd strategol y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ei mabwysiadu i foderneiddio a datblygu ei gwasanaeth ymhellach. Yn ogystal â hynny, mae achosion busnes a gyflwynir gerbron y Bwrdd yn cynnwys manylion clir am y modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cefnogi ei nodau cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd drwy gynnwys costau oes gyfan asedau a'r manteision amgylcheddol yn gysylltiedig ag opsiynau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn adrodd gwybodaeth sy'n cynnwys gwariant blynyddol, niferoedd yr asedau a'u cyflwr yn rhan o'r data a gyflwynir ganddi i'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau.

[26] Gweler Troednodyn 2

120 Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio grwpiau a byrddau penodol i reoli ei hasedau, fel y Grŵp Cynllunio Cyfalaf Mewnol, Grŵp Llywio TGCh, Bwrdd y Rhaglen Ystadau a Bwrdd y Rhaglen Caffael Cerbydau. Ymddengys fod trefniadau lleol ar waith i reoli risg ar gyfer y grwpiau hyn, a bod y risgiau'n cael eu hadrodd wrth Dîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag ymddengys nad oes rhyw lawer o gysondeb rhwng y gwahanol agweddau ar reoli asedau sydd ar waith o fewn yr Ymddiriedolaeth.

121 Gallai diffyg eglurder ynghylch ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at reoli asedau fod yn cyfrannu at ddiffyg hyder bod asedau'n cael eu rheoli'n effeithlon. Roedd llai na hanner (5 o 12 neu 41%) yr aelodau bwrdd a ymatebodd i'n harolwg naill ai'n hyderus neu'n hyderus iawn bod y dull o reoli asedau yn sicrhau gwerth am arian, o gymharu â 55% ledled Cymru.

122 Cytunodd Tîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddar i alinio ei reolaeth ar asedau ymhellach drwy ddefnyddio strwythurau cynllunio cyfalaf, ac y mae wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Cyfalaf Mewnol. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn y dylai hyn gefnogi'r broses o alinio ei hagweddau amrywiol ar reoli asedau.

123 Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar greu cofrestr newydd o asedau, o'r enw Rheoli Asedau Real (RhAR) Nid yw cofrestr asedau gyfredol yr Ymddiriedolaeth yn darparu'r data angenrheidiol i'r Ymddiriedolaeth allu sicrhau bod asedau'n addas i'r diben a bod meysydd fel gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yn cael eu nodi. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu mabwysiadu dull cymedrol a graddol o weithredu RhAR drwy ddefnyddio data sy'n bodoli eisoes o'i chofrestr gyfredol i brofi'r system, a chymharu'r canlyniadau o'r naill gofrestr a'r llall er mwyn canfod gwallau neu wendidau. Os bydd y profion yn llwyddiannus, bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r gofrestr RhAR ar ei phen ei hun o fis Ebrill 2019 ymlaen.

124 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth rheoli asedau. Gallai datblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli asedau esgor ar amryw o fanteision i'r Ymddiriedolaeth. Gallai'r manteision hynny gynnwys:

- sicrhau bod cynlluniau tanategol ar gyfer mathau penodol o asedau wedi'u halinio â'i gilydd;
- cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i ddefnyddio ei chyfalaf dewisol yn ôl blaenoriaeth; a
- rhoi sicrwydd i aelodau'r bwrdd ynghylch ei hymagwedd strategol a'i hymagwedd at sicrhau gwerth am arian.

125 Dylai'r Ymddiriedolaeth archwilio'r manteision posibl i'r sefydliad yn sgil datblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli asedau.

# Argymhellion

126 Amlinellir ein hasesiad o gynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael ag argymhellion y llynedd yn Atodiad 1. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod ein hargymhellion blaenorol yn cael eu gweithredu'n llawn yn ystod y 12 mis nesaf. Rydym hefyd yn gwneud saith argymhelliad newydd sy'n deillio o'n gwaith 2018 ag amlinellir yn Arddangosyn 2.

Dangosyn 2: argymhellion 2018

| Argymhellion 2018 |
| --- |
| **Adolygu, egluro a lleihau'r angen i weithredu drwy'r Cadeirydd**<br>A1 Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r broses ar gyfer gweithrediadau'r Cadeirydd a chwilio am gyfleoedd i leihau'r rhain lle bo modd. Lle bo angen gweithredu drwy'r Cadeirydd, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod disgrifiad digonol o weithrediadau'r Cadeirydd wedi'i gynnwys ym mhapurau'r Bwrdd. |
| **Cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh**<br>A2 Cymryd camau i gryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh drwy:<br>a) gynyddu presenoldeb rheolaidd aelodau craidd y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth; ac<br>b) egluro a chyfleu cysylltiadau rhwng llywodraethu gwybodaeth a TGCh er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer goruchwylio busnes digidol yr Ymddiriedolaeth a chraffu ar hynny. |
| **Gwella arferion a sicrwydd risg**<br>A3 Er mwyn gwella arferion risg a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB), dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a) gynnwys digon o fanylion ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn FfSB i esbonio pam bod risgiau wedi'u codi/gostwng; a<br>b) sicrhau bod risgiau yn FfSB yn weithredol a rhagweld risgiau yn y dyfodol, yn ogystal â myfyrio ar lwyddiant camau lliniarol. |
| **Sicrhau goruchwyliaeth a chydymffurfiaeth effeithiol â deddfwriaeth newydd**<br>A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall roi sicrwydd ei bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth newydd, ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno, a chyfleu hynny wrth y Bwrdd naill ai drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd neu fel eitem i'w hystyried yn rhan o raglen waith y Bwrdd ac/neu ei bwyllgorau. |

| Argymhellion 2018 |
| --- |
| **Archwilio effaith trefniadau parhaus i reoli swyddi gwag ar gapasiti corfforaethol yr Ymddiriedolaeth**<br>A5 Gwnaethom sylwadau ynghylch y pwysau ar gapasiti corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn ystod ein Hasesiad Strwythuredig yn 2016 a 2017. Mae'n debygol y bydd y pwysau hyn yn gwaethygu yn sgil agweddau ar ei chynllun arbedion blynyddol sy'n gysylltiedig â swyddi gwag anweithredol. Dylai'r Ymddiriedolaeth werthuso effaith y cynllun arbed hwn ar ei chapasiti corfforaethol. |
| **Sicrhau mwy o berchnogaeth ar yr holl weithgarwch caffael**<br>A6 Er bod gan yr Ymddiriedolaeth rai prosesau a goruchwyliaeth leol dros weithgarwch caffael, ee caffael cerbydau, dylai'r Ymddiriedolaeth wella ei goruchwyliaeth dros weithgarwch caffael a gyflawnir ar ei rhan gan PCGC, a'i pherchnogaeth ar hynny, gan gynnwys:<br>a) adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r PCGC yn gysylltiedig â chaffael er mwyn sicrhau ei fod yn nodi disgwyliadau'r Ymddiriedolaeth yn glir; a<br>b) chraffu mwy ar adroddiadau chwarterol ar berfformiad. |
| **Datblygu strategaeth rheoli asedau**<br>A7 Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried manteision posibl datblygu strategaeth gyffredinol i reoli asedau. Dylai hyn gynnwys ystyried a yw strategaeth gyffredinol yn cyfuno agweddau unigol ei threfniadau presennol ar gyfer rheoli asedau, mewn ffordd ddefnyddiol, i sicrhau gwerth am arian ac eglurder i aelodau'r bwrdd. |

# Atodiad 1

## Cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol

Dangosyn 3: camau gweithredu mewn ymateb i argymhellion 2017, ac argymhellion blaenorol sy'n weddill

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| A1 | Er bod y broses graffu ar ddarpariaeth y cynllun arbed arian yn dda ar y cyfan, dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau cyfredol i gynnwys:<br>a) mwy o sylw gan y Grŵp Cyllid Gweithredol ar y rhesymau y tu ôl i dangyflawniad cynlluniau arbed arian penodol;<br>b) gwella presenoldeb Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y Grŵp Cyllid Gweithredol; a<br>c) chryfhau'r broses graffu ar gynlluniau arbed arian sy'n tanberfformio gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. | Mae cofnodion y Grŵp Cyllid Gweithredol yn dangos ffocws clir gan y Grŵp ar y rhesymau sydd wrth wraidd tangyflawni mewn cynlluniau arbed penodol.<br>Wrth adolygu cofnodion y Grŵp Cyllid Gweithredol, gwelir bod presenoldeb aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol yn fwy cyson, gyda llai na thri ymddiheuriad wedi'u nodi ar gyfer deuparth y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2017-18.<br>Roedd yr adroddiad cyllid a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym mis Hydref 2018 yn cynnwys mwy o fanylion am gynlluniau arbed sy'n tanberfformio. | Do |
| A2 | Ystyrir y risgiau i berfformiad y gwasanaeth wrth gynllunio arbedion, ond nid adroddir yn ddigonol ar risgiau yn ystod y flwyddyn. Dylai'r Ymddiriedolaeth wneud yn siŵr bod ei Hadroddiadau Cyflawni Arbedion yn nodi unrhyw risgiau y gallai cynlluniau arbed arian eu peri i berfformiad neu ansawdd y gwasanaeth. | Mae adroddiad ar brif bwyntiau arbed yr Ymddiriedolaeth bellach yn cynnwys elfen benodol sy'n trafod risgiau i gynlluniau arbed, a chamau i liniaru'r risgiau hynny. Darperir graddfa CAG hefyd ym mhob un o'r adroddiadau prif bwyntiau ar themâu unigol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gallai fod yn fwy eglur wrth dynnu sylw at risgiau i ansawdd a gwasanaethau, oherwydd ni chyfeirir rhyw lawer at risgiau eraill ar hyn o bryd ar wahân i risgiau i gyflawni'r targed arbedion. O hyn allan, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnwys cyfeirnod mewn adroddiadau ar gyfer pob math o risg a budd. | Yn rhannol |

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| A3 | Mae angen i'r Ymddiriedolaeth roi sylw i'r gwelliannau pellach i reolaethau rheoli asedau a nodwyd yn adroddiad cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol a'r Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2016-17. | Yn ystod 2018, canolbwyntiodd yr Ymddiriedolaeth ei sylw a'i gapasiti ar greu cofrestr newydd o asedau, o'r enw Rheoli Asedau Real (RhAR) Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu mabwysiadu dull cymedrol a graddol o weithredu RhAR drwy ddefnyddio data sy'n bodoli eisoes o'i chofrestr gyfredol i brofi'r system, a chymharu'r canlyniadau o'r naill gofrestr a'r llall er mwyn canfod unrhyw wallau neu wendidau. Er mai'r cynllun gwreiddiol oedd comisiynu'r system yn llawn erbyn 31 Gorffennaf 2018, gohiriwyd hynny er mwyn cynnal profion pellach ar y system. | Yn rhannol |
| A4 | Canfuwyd nad oedd modd mynd at rai eitemau ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn ddigon hawdd, yn unol â'r gofynion sydd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033 yn 2016, ac rydym wedi gweld yr un sefyllfa yn 2017. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion WHC 033. | O adolygu'r wefan ym mis Hydref 2018, gwelir bod y sefyllfa'n debyg i'r hyn a ganfuwyd yn ein hadolygiad yn 2017. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i weithredu'r cam hwn erbyn mis Mawrth 2019.<br>Yn ôl y cofnod olrhain argymhellion archwilio, cynhaliwyd adolygiad llawn o wefan yr Ymddiriedolaeth er mwyn canfod problemau wrth we-lywio. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr o'r GIG, yn fewnol ac yn allanol, yn sgil yr ymgynghoriad cyfredol ar system rheoli cynnwys newydd ar gyfer GIG Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw wefan newydd yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y WHC. | Naddo |

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| A5 | Dengys asesiad yn erbyn ein hadolygiad o Fframweithiau Sicrwydd Bwrdd sydd ar waith mewn cyrff GIG yng Nghymru fod Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ystod o wybodaeth, ond nododd hefyd y gellid cryfhau sawl maes. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>• ddarparu rhagor o fanylder wrth ddisgrifio'r bygythiad i gyflawni amcanion strategol, ynghyd â'u canlyniadau;<br>• nodi a datgan yn glir y rheolaethau penodol a'r sicrwydd ar gyfer y Fframwaith, er enghraifft, rhoi manylion am y math o archwilio clinigol fydd yn darparu sicrwydd yn hytrach na dyfarnu sicrwydd ar 'archwilio clinigol' yn gyffredinol; a<br>• phennu goruchwyliaeth ar bob risg a nodwyd ar gyfer amcanion corfforaethol a'r rheolaethau cysylltiedig i bwyllgor penodedig graffu arnynt. | Ym mis Mai 2018, nodwyd ar gofnod olrhain argymhellion archwilio yr Ymddiriedolaeth fod camau yn erbyn yr argymhelliad hwn wedi'u cwblhau. Yn sgil hynny, fe'i tynnwyd o fersiynau dilynol o'r cofnod olrhain. Dengys ein hasesiad o gynnydd:<br>• bod y disgrifiad o'r ffactorau sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion strategol wedi gwella;<br>• bod y disgrifiad o'r rheolaethau a'r sicrwydd ar gyfer y Fframwaith wedi gwella; a<br>• bod yr Ymddiriedolaeth wedi pennu pwyllgor neilltuol i graffu ar y trefniadau i oruchwylio pob nod strategol a'r risgiau a'r rheolaethau cysylltiedig. | Do |
| A6 | Gwella'r system dracio argymhellion archwiliadau ymhellach drwy gofnodi'n gyson ganlyniad camau gweithredu penodol a sut y maent yn cysylltu â'r argymhelliad. Er enghraifft, os yw'r cam gweithredu yn ymwneud ag adolygu un o feysydd neu swyddogaethau penodol y sefydliad, darparu disgrifiad o ganlyniad yr adolygiad hwnnw a sut mae'n ymateb i'r argymhelliad gwreiddiol. | Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gofnod olrhain archwilio diwygiedig ym Mhwyllgor Archwilio mis Medi 2018. Mae'r fersiwn ddiwygiedig yn caniatáu i reolwyr ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio holi ymhellach ynghylch argymhellion. Mae'n ei gwneud hi'n haws dadansoddi argymhellion yn ôl blwyddyn, blaenoriaeth a chynnydd, a ddylai helpu rheolwyr i gofnodi gweithgarwch, a helpu rheolwyr i graffu ar gynnydd yn fwy effeithiol yn y dyfodol. | Do |

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| A7 | Nid yw cyfraddau salwch yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2016-17 wedi lleihau yn unol â'r targedau a osodwyd. O ystyried yr effaith y mae absenoldeb oherwydd salwch yn ei chael ar gapasiti gweithredol yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, yn ogystal â'i pherfformiad ariannol, dylai'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu camau gweithredu sy'n lleihau lefelau salwch. | 5.9% oedd targed absenoldeb salwch yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i sicrhau cyfradd absenoldeb salwch o 7.6%, ac roedd ei chyfraddau ar draws mis Rhagfyr 2017 a mis Ionawr 2018 gyda'r uchaf y mae wedi'u profi ers 2013, oherwydd pwysau'r gaeaf. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i brofi'r gyfradd absenoldeb salwch waethaf ar draws cyrff iechyd Cymru. | Naddo |
| A8 | Dylai'r Ymddiriedolaeth wella cyflymder diweddaru ei pholisïau a sicrhau cynnydd prydlon yn erbyn gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad erbyn mis Mai 2018. | Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth broses i adolygu a diweddaru ei pholisïau ym mis Gorffennaf 2017. Ym mis Medi 2018, adroddodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi diweddaru 43 o'i 130 o bolisïau. Roedd sawl polisi allweddol yn gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth wedi mynd heibio eu dyddiad adolygu ar adeg y gwaith maes; mae'r rhain yn cynnwys y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth, y Polisi Diogelu Gwybodaeth, y Polisi Gwaredu a'r Polisi Patsys. Fodd bynnag, rydym wedi nodi cynlluniau i gymeradwyo'r Polisi Diogelu Gwybodaeth a Rheoli Mynediad diweddaraf ym mis Rhagfyr 2018.<br><br>Roedd yr adroddiad gan Stratia a baratowyd i'r Ymddiriedolaeth ym mis Chwefror 2018 yn pwysleisio'r angen i ddiweddaru polisïau allweddol fel mater o frys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Cynllun Gwella Diogelwch i adrodd wrth y Tîm Rheoli Gweithredol ar gynnydd yn erbyn hyn mewn ymateb i Stratia. | Yn rhannol |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
| --- | --- | --- |
| A9 Gwella prydlondeb papurau Bwrdd a Phwyllgor, a sicrhau gwelliannau pellach i'w hansawdd drwy:<br>• gael rhagor o "bwyslais ar sicrwydd", gan dynnu sylw'r aelodau at unrhyw risgiau y dylent eu hystyried, neu'r lefel o sicrwydd bod risgiau yn cael eu lliniaru: mae'r rhestr wirio wrth adrodd yn ddull defnyddiol o gofnodi'r wybodaeth hon, ond nid yw'n cael ei chynnwys na'i chwblhau'n gyson;<br>• bod yn fwy cyson wrth gofnodi pwyntiau trafod pwysig yn y cofnodion: ar hyn o bryd dim ond camau gweithredu sydd wedi'u cofnodi, a dim argymhellion, ac nid oes cysondeb o ran dangos craffu na thrafodaeth; a<br>• sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn yn rheolaidd gofnodion Pwyllgor y Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC). | Yn ôl cofnod olrhain argymhellion archwilio mis Medi 2018:<br>• mae adolygiad o'r rhestr wirio ar gyfer adrodd wedi cael ei ohirio yn sgil adolygiad ehangach o strwythurau pwyllgor, a bwriedir ei gynnal ym mis Rhagfyr 2018;<br>• cymeradwywyd y protocol ar gyfer cofnodion gan Weithgor y Cadeirydd ym mis Mawrth 2018; ac<br>• ers mis Mawrth 2018, roedd y Bwrdd yn disgwyl derbyn cofnodion y PGAB yn rheolaidd. Fodd bynnag, dengys ein hadolygiad o bapurau'r Bwrdd nad yw'r Bwrdd wedi derbyn unrhyw un o'r pedair cyfres o gofnodion a gymeradwywyd gan PGAB yn ystod yr un cyfarfod ers mis Mawrth 2018. | Yn rhannol |

# Atodiad 2

## Ymateb yr Ymddiriedolaeth i argymhellion eleni

Pan fo'r pwyllgor perthnasol wedi ystyried yr adroddiad hwn, byddwn yn cynnwys fersiwn gryno o ymateb yr Ymddiriedolaeth yn yr adroddiad cyn ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dangosyn 4: ymateb rheolwyr i argymhellion 2018

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A1 **Adolygu, egluro a lleihau'r angen i weithredu drwy'r Cadeirydd**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth archwilio'r rhesymau wrth wraidd gweithrediadau mynych gan y Cadeirydd a chwilio am gyfleoedd i leihau'r rhain lle bo modd. Lle bo angen gweithredu drwy'r Cadeirydd, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod disgrifiad digonol o weithrediadau'r Cadeirydd ym mhapurau'r Bwrdd. | Derbyn. Yn ddiweddar, mae nifer ac amlder cyfarfodydd y Bwrdd wedi cynyddu, a allai leihau'r angen am rai o Weithrediadau'r Cadeirydd. Caiff holl Weithrediadau'r Cadeirydd eu cofnodi'n briodol a'u hadrodd gerbron y Bwrdd, yn unol â'r arfer a fabwysiadwyd gan y Bwrdd.<br>Er hynny, byddwn yn adolygu'r broses gyfredol ac yn ceisio safbwynt y Bwrdd ynghylch trefniadau'r dyfodol, gan gynnwys rhesymau i gyfiawnhau Gweithrediadau'r Cadeirydd. | Mai 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| A2 **Cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh**<br>Cymryd camau i gryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh drwy:<br>a) gynyddu presenoldeb rheolaidd aelodau craidd y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth; ac<br>b) egluro a chyfleu cysylltiadau rhwng llywodraethu gwybodaeth a TGCh er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer goruchwylio busnes digidol yr Ymddiriedolaeth a chraffu ar hynny. | Derbyn.<br>a) Cafwyd ymrwymiad gan gyfarwyddiaethau i sicrhau bod presenoldeb yn y Grwpiau Llywio Llywodraethu Gwybodaeth a TGCh yn gynrychioliadol o'r sefydliad. Gwelwyd gwelliant sylweddol mewn cyfarfodydd diweddar. Mae'r swyddog gweithredol sy'n gyfrifol am TGCh hefyd wedi atgoffa'r aelodau ynghylch yr angen i fod yn bresennol, a phwysigrwydd hynny.<br>b) Mae cysylltiadau agosach wedi'u creu drwy benodi Uwch Arbenigwr Diogelwch TGCh sy'n cydweithio'n agos â'r Tîm LlG ar faterion Diogelwch Gwybodaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r un aelodau'n bresennol yn y Grŵp Llywio TGCh a LlG er mwyn sicrhau gwaith cydgysylltiedig. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo penodi Cyfarwyddwr Materion Digidol. Mae'r broses recriwtio ar y gweill a bydd strategaeth ddigidol yn cael ei datblygu ymhellach yn dilyn y penodiad. | Mawrth 2019<br><br>Cwblhawyd Rhagfyr 2018<br><br>Medi 2019 | Pennaeth GI/Pennaeth TGCh<br><br>Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh Dros Dro |
| A3 **Gwella arferion a sicrwydd risg**<br>Er mwyn gwella arferion risg a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB), dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a) gynnwys digon o fanylion ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn FfSB i esbonio pam bod risgiau wedi'u codi/gostwng; a<br>b) sicrhau bod risgiau yn FfSB yn weithredol a rhagweld risgiau yn y dyfodol, yn ogystal â myfyrio ar lwyddiant camau lliniarol. | Derbyn. Bydd datblygu dyluniad y modiwl Datix ar gyfer e-risg ac e-gofrestrau yn galluogi hyn, gydag adolygiad cefnogol y broses rheoli risg. Cafodd y Strategaeth Risg ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r Gofrestr Risg yn rhoi esboniad o'r risgiau sydd wedi cael eu huwchgyfeirio/isgyfeirio ac mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar wella cynnwys y naratif lliniaru ar gofrestrau risg Cyfarwyddiaeth a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. | Mawrth 2019 | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A4 **Sicrhau goruchwyliaeth a chydymffurfiaeth effeithiol â deddfwriaeth newydd**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall roi sicrwydd ei bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth newydd, ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno, a chyfleu hynny wrth y Bwrdd naill ai drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd neu fel eitem i'w hystyried yn rhan o raglen waith y Bwrdd ac/neu ei bwyllgorau. | Derbyn. Cydnabyddir y bydd angen cyflawni llawer o waith i weithredu hyn yn llawn, gall yr Ymddiriedolaeth ddysgu gan gyrff eraill y GIG sydd eisoes wedi cyflawni gwaith tebyg. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio i ddechrau ar feysydd deddfwriaeth allweddol a'u cwblhau erbyn y dyddiad targed, gyda golwg ar gwblhau'r gwaith yn llawn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20. | Tachwedd 2019 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A5 **Archwilio effaith trefniadau parhaus i reoli swyddi gwag ar gapasiti corfforaethol yr Ymddiriedolaeth**<br>Gwnaethom sylwadau ynghylch y pwysau ar gapasiti corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn ystod ein Hasesiad Strwythuredig yn 2016 a 2017. Mae'n debygol y bydd y pwysau hyn yn gwaethygu yn sgil agweddau ar ei chynllun arbedion blynyddol sy'n gysylltiedig â swyddi gwag anweithredol. Dylai'r Ymddiriedolaeth werthuso effaith y cynllun arbed hwn ar ei chapasiti corfforaethol. | Derbyn. Cynhelir gwerthusiad o effaith y targed arbedion hwn yn rhan o'r broses cynllunio arbedion, wrth ddatblygu'r cynllun ariannol cylchol ymhellach i gefnogi CTCI 2019-20. | Ionawr 2019 | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| A6 **Sicrhau mwy o berchnogaeth ar yr holl weithgarwch caffael**<br>Er bod gan yr Ymddiriedolaeth rai prosesau a goruchwyliaeth leol dros weithgarwch caffael, ee caffael cerbydau, dylai'r Ymddiriedolaeth wella ei goruchwyliaeth dros weithgarwch caffael a gyflawnir ar ei rhan gan PCGC, a'i pherchnogaeth ar hynny, gan gynnwys:<br>a) adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r PCGC yn gysylltiedig â chaffael er mwyn sicrhau ei | Derbynnir y ddau argymhelliad yn unol â'r argymhelliad.<br>a) Caiff y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cydwasanaethau eu hadolygu yn gysylltiedig â chaffael.<br>b) Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwella ei threfniadau i graffu ar yr adroddiadau perfformiad chwarterol a dderbynnir gan y | a) Mawrth 2019 | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| fod yn nodi disgwyliadau'r Ymddiriedolaeth yn glir; a<br>b) chraffu mwy ar adroddiadau chwarterol ar berfformiad. | Cydwasanaethau. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn dechrau cynnal cyfarfodydd perfformiad i'r Swyddogion Gweithredol. Bydd unrhyw bryderon neu amrywiadau sylweddol mewn perfformiad yn cael eu hadrodd gerbron y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. | b) Ebrill 2019 | Cyfarwyddwyr Cyllid a'r Gweithlu a Datblygu Trefniadol |
| A7 **Datblygu strategaeth rheoli asedau**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried manteision posibl datblygu strategaeth gyffredinol i reoli asedau. Dylai hyn gynnwys ystyried a yw strategaeth gyffredinol yn cyfuno agweddau unigol ei threfniadau presennol ar gyfer rheoli asedau, mewn ffordd ddefnyddiol, i sicrhau gwerth am arian ac eglurder i aelodau'r bwrdd. | Derbyn. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried pa fanteision ychwanegol y gallai ymagwedd esgor arnynt. Mae cynlluniau strategol manwl wedi'u sefydlu ar gyfer ein holl feysydd asedau allweddol a pherthnasol (ee, ystadau, fflyd a chyfarpar). Mae gan feysydd eraill, fel TGCh, hefyd weithdrefn rheoli asedau weithredol yn dilyn gwaith blaenorol â Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Byddwn hefyd yn alinio ein strwythurau cynllunio cyfalaf ymhellach i gefnogi'r gwaith rheoli asedau, a hefyd yn adolygu'r modd y rhoddir sicrwydd ynghylch Gwerth am Arian, o safbwynt asedau, i'r Bwrdd a'r pwyllgorau. | Mawrth 2020<br><br>Medi 2019 | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad<br><br>Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales